10 Gorffennaf 2014

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Nigel Blewitt, Louise Fleet, Claire Flood-page, Stephen Martin, Jayne Power, Nick Selwyn a Verity Winn (Swyddfa Archwilio Cymru) a Sara-Jayne Byrne (PWC), Karen Smith and Ginette Beal (Grant Thornton) a Melanie Watson (KPMG) o dan arweiniad Alan Morris.


**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk.


© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2014

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

# Cynnwys

Mae Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa dda i helpu i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ond nid yw mewn sefyllfa gystal i leihau nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET a phennu a yw'n cyflawni gwerth am arian


| | | |
|---|---|---|
| | Crynodeb | 6 |
| | Argymhellion | 12 |
| 1 | Mae camau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ymgysylltu â chynghorau a rhai partneriaid pwysig ond nid oes asesiad trylwyr o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei hamcanion | 15 |
| | Mae Llywodraeth Cymru wedi adeiladu ar ei gwaith blaenorol i greu Fframwaith sy'n cynnwys chwe elfen allweddol a dau gynnig newydd i bobl ifanc 16-18 oed | 16 |
| | Mae'r Fframwaith yn adlewyrchu tystiolaeth ymchwil ac asesiad o'r camau a gymerir mewn dau gyngor yng Nghymru ond mae llai o dystiolaeth ar gael o effeithiolrwydd ymyriadau unigol | 18 |
| | Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda chynghorau a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r Fframwaith a'i Gynllun Gweithredu ategol ond ni wnaeth ddibynnu'n sylweddol ar safbwyntiau na phrofiadau uniongyrchol pobl ifanc | 20 |
| | Nid yw dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o wariant cyfredol yn y maes hwn er ei bod yn cymryd camau i wella'r broses o gydgysylltu cyllid Llywodraeth Cymru ac Ewrop | 21 |
| 2 | Os cânt eu gweithredu'n llwyddiannus, mae Fframwaith a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru yn debygol o helpu i leihau'r nifer gyffredinol o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET, ond erys risgiau sylweddol | 26 |
| | Gallai gweithredu'r Fframwaith wella'r broses o gydgysylltu gwasanaethau a lleihau dyblygu | 27 |
| | Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau bod gwaith partneriaid allweddol yn canolbwyntio ar gefnogi'r broses o gyflawni'r Fframwaith | 28 |
| | Mae rhai cynghorau wedi mynegi pryderon ynghylch eu gallu i weithredu'r Fframwaith o ystyried eu heriau ariannol cyfredol, y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu monitro dros amser | 31 |
| | Nid yw'r Fframwaith yn gwahaniaethu digon rhwng pobl ifanc sy'n NEET gan beri risg bod camau gweithredu yn canolbwyntio ar y rhai sydd angen cymorth leiaf | 31 |
| | Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar waith gyda dysgwyr cyn 16 oed a phobl ifanc 16-18 oed ac nid yw'n glir a fydd hyn yn ddigon i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed | 33 |

3 Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau clir ar waith i fonitro cynnydd a dwyn cynghorau a'r rhan fwyaf o randdeiliaid cenedlaethol i gyfrif ond nid yw cynghorau wedi mabwysiadu ei thargedau er eu bod yn ymwrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET 36

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r Fframwaith yn glir ac mae wedi cyflwyno dull o ddwyn cynghorau a rhai partneriaid eraill i gyfrif, er bod rhai trefniadau ar gyfer atebolrwydd lleol yn aneglur a bydd unrhyw newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau addysg yn effeithio ar drefniadau 37

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau bod atebolrwydd ei hadrannau ei hun am weithredu'r Fframwaith yn gliriach ac i gydgysylltu gweithgareddau adrannau polisi 42

Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau cenedlaethol i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed a 19-24 oed a'r rhai sy'n gadael gofal sy'n NEET ond nid yw cynghorau yn eu rhannu er gwaethaf eu hymrwymiad eu hunain i'r agenda 43

4 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynlluniau digon clir i gyflawni ei hymrwymiadau i waith gwerthuso effeithiol a dysgu a rennir ac asesu gwerth am arian gwariant cyhoeddus sylweddol yn y maes hwn 45

Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu buddiannau cymdeithasol lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET ond mae angen gwneud mwy o waith i fesur y buddiannau hyn 46

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i werthuso a galluogi dysgu a rennir 46

Mae angen i Lywodraeth Cymru a chynghorau wneud mwy i asesu gwerth am arian y lefel sylweddol o wariant cyhoeddus ar bobl ifanc sy'n NEET 48

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg 52

Atodiad 2 – Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 55

Atodiad 3 – Crynodeb o ganfyddiadau gwaith maes mewn cynghorau 61


Atodiad 4 – Cymharu polisïau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn y DU 64

# Crynodeb

1 Mae galluogi pobl ifanc i ddilyn llwybrau cynhyrchiol i waith yn hanfodol er mwyn creu Cymru ffyniannus a chynaliadwy. Mae pobl ifanc nad ydynt yn cyflawni gweithgareddau cynhyrchiol yn wynebu mwy o risg o fod allan o waith yn barhaus, ennill cyflogau is neu fod ag iechyd gwael ac maent yn fwy tebygol o dorri'r gyfraith na phobl ifanc eraill. Nid dim ond effeithio ar unigolion a wna cyfnod parhaus heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae hefyd yn peri costau sylweddol o ran arian cyhoeddus.

2 Ers sawl blwyddyn, mae cyfran y bobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru sy'n NEET wedi bod oddeutu 12 a 13 y cant er iddi ostwng i 10.2 y cant o'r grŵp oedran ar ddiwedd 2012 (ffigur dros dro). Mae hyn yn cyfateb i 11,600 o bobl ifanc a dyma'r ffigur isaf ers 2006 a'r ffigur isaf ond un ers 1996. I'r gwrthwyneb, lleihaodd nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET rhwng 1996 a 2006 ond mae wedi cynyddu'n gyson ers 2008[1]. Ar ddiwedd 2012, roedd 23 y cant (59,000) o bobl ifanc 19-24 oed yn NEET (Ffigur 1). Ymhlith pobl ifanc 16-18 oed, roedd dynion ifanc yn fwy tebygol o fod yn NEET na merched: roedd 12 y cant o ddynion 16-18 oed yn NEET o gymharu ag 8 y cant o ferched. Ymhlith pobl ifanc 19-24 oed roedd y gwrthwyneb yn wir: roedd 25 y cant o ferched ifanc yn NEET ar ddiwedd 2012 o gymharu â 22 y cant o ddynion. Mae'r grŵp hŷn hwn yn cynnwys cyfran sylweddol o bobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu neu deuluol neu na allant weithio oherwydd problem iechyd neu anabledd hirdymor. Trafodir nodweddion pobl ifanc sy'n wynebu mwy o risg o fod yn NEET yn Atodiad 2 ynghyd â manylion y ffynonellau data amrywiol sy'n meithrin ein dealltwriaeth o'r grŵp hwn o bobl ifanc.

Ffigur 1 – Mae nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yng Nghymru wedi aros yn weddol sefydlog dros y 15 mlynedd diwethaf tra bod nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET wedi cynyddu'n gyflym ers 2008




*Ffynhonnell: Ystadegau Llywodraeth Cymru, 2013*

1 Cafodd y term NEET ei ddefnyddio gyntaf gan Lywodraeth y DU yng nghanol y 1990au er mwyn cyfeirio at bobl ifanc 16-18 oed. Ar yr adeg honno dosbarthwyd pobl ifanc 19-24 oed yn bobl ddiwaith. Bellach defnyddir y term yn ehangach i gynnwys pobl ifanc 16-24 oed (Atodiad 2).

3 Awgryma data arolwg fod lleihad yn nifer y bobl ifanc 16-18 oed yn 2012 sy'n NEET yn celu stori fwy cymhleth: mae nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn 16 oed wedi lleihau ond mae nifer y bobl ifanc 18 oed a throsodd sy'n NEET wedi cynyddu'n gyffredinol. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru fod cyfran y bobl ifanc 16 oed sy'n NEET wedi gostwng o 6.6 y cant rhwng 2009 a 2011 i 4.7 y cant ar gyfartaledd rhwng 2011 a 2013 tra bod cyfran y bobl ifanc 18 oed sy'n NEET wedi cynyddu o 18.4 y cant i 21.0 y cant dros yr un cyfnod[2]. Ceir cryn amrywiad yng nghyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET ledled Cymru (Tabl 4, Atodiad 2).

4 Dros amser, bu newidiadau yng nghyrchfannau pobl ifanc fel bod pobl ifanc 16 oed yn fwy tebygol o aros mewn addysg: yn 2013 parhaodd 86 y cant o bobl ifanc 16 oed i dderbyn addysg amser llawn o gymharu â 74 y cant yn 2004. Mae'r gyfran sy'n dechrau gweithio wedi gostwng ac, yn 2013, dim ond 1.4 y cant o'r rhai a adawodd blwyddyn 11 a ddechreuodd weithio yn 16 oed o gymharu â bron 7 y cant yn 2004. Mae'r gyfran sy'n dechrau dilyn llwybr dysgu seiliedig ar waith wedi parhau'n weddol sefydlog yn ystod y cyfnod sef tua 7 y cant o'r rhai sy'n gadael blwyddyn 11 (Tabl 6, Atodiad 2).

5 Ceir llawer o dystiolaeth ymchwil ynghylch nodweddion pobl ifanc sy'n wynebu risg uchel o ymddieithrio. Tynnodd *Cynllun gweithredu ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc* (2011) Llywodraeth Cymru sylw at y risgiau uwch a wynebir gan: y rhai sy'n gadael gofal; y rhai â chyrhaeddiad addysgol gwael; y rhai â hanes o gael eu gwahardd o'r ysgol neu lefelau presenoldeb gwael; y rhai sydd wedi dod i gysylltiad â'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid neu wasanaethau caethiwed; pobl ifanc ag anableddau; y rhai â phroblemau iechyd meddwl; a mamau yn eu harddegau. Mae ffactorau eraill fel cael prydau ysgol am ddim a bod â rhieni nad ydynt yn cefnogi eu haddysg hefyd yn gysylltiedig â mwy o debygolrwydd o fod yn NEET wedyn. Cyfeiria hyn at natur gymhleth y rhwystrau a wynebir gan rai pobl ifanc i ymgysylltu mewn addysg a'r amrywiaeth o ymyriadau y gall fod eu hangen er mwyn eu galluogi i gyfranogi yn y dyfodol.

6 Awgryma ymchwil arall[3] fod hyd at dri grŵp o fewn y boblogaeth NEET o ran graddau eu hymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Amcangyfrifir bod tua 40 y cant o'r boblogaeth NEET yn 'NEET parhaus' neu 'graidd' nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant am gyfnod hir ac sydd fel arfer yn wynebu sawl rhwystr i ail-ymgysylltu. Y grŵp mawr arall o fewn y boblogaeth NEET yw'r rhai a ddosberthir yn 'gylchol', 'mewn cyfnod o gyfnewid' neu 'yn agored i ddysgu' sy'n cyfrif am tua 40 y cant o'r grŵp. Mae'r bobl ifanc hyn yn gadarnhaol ynghylch addysg a hyfforddiant ac maent yn debygol o ailymgysylltu yn y byrdymor. Amcangyfrifa ymchwil fod yr 20 y cant o bobl ifanc sy'n NEET sy'n weddill yn 'anwadal', 'yn wynebu risg' neu 'heb benderfynu' heb fod unrhyw rwystrau penodol i ymgysylltu ond sydd naill ai'n anhapus am yr opsiynau sydd ar gael iddynt neu nad ydynt wedi gwneud penderfyniad yn eu cylch. Unwaith eto gallai fod angen i'r bobl ifanc hyn gael cyngor a pheth cymorth i ailymgysylltu ond efallai na fydd angen cymorth sylweddol arnynt.

2 Llywodraeth Cymru (2013) *Young people not in education, employment of training (Year to 31 December 2013)* Bwletin Ystadegol 41/2014 Tabl 3. Daw'r ffigurau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac maent yn gyfartaleddau tair blynedd.
3 Llywodraeth Cymru (2013) *Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Employment, Education or Training'*, Social Research 60/2013

7 Awgryma data arolwg fod cyfran y bobl ifanc 16-18 oed a 19-24 oed sy'n NEET yng Nghymru uwchlaw cyfartaledd y DU. (Tabl 7, Atodiad 4).Ymhellach i ffwrdd, mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn cyhoeddi cymariaethau o nifer y bobl ifanc sy'n NEET mewn gwahanol wledydd ar gyfer pobl ifanc 15-24 oed[4]. Yn 2012, roedd Cymru yn hanner isaf y tabl o 29 o wledydd. Mae cyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn y DU yn debyg i gyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd (UE) (22.9 y cant o gymharu â 22.6 y cant ar gyfartaledd) ond mae'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd ar gyfer gwledydd yn yr G7 (15.9 y cant). Mae'r ffaith bod gwahaniaeth yn oedrannau dysgwyr pan fyddant yn gorffen addysg orfodol yn golygu ei bod yn anodd cymharu cyfraddau NEET â gwledydd eraill, ond mae gan wledydd fel yr Iseldiroedd, Slofenia a Denmarc lefelau is o bobl ifanc sy'n NEET na Chymru.

8 Mae Llywodraeth Cymru wedi hir gydnabod lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel un o'i blaenoriaethau ac, yn y blynyddoedd diwethaf, mae cynghorau hefyd wedi nodi NEET neu ymgysylltu â phobl ifanc fel blaenoriaeth leol. Cyhoeddwyd sawl dogfennaeth strategaeth rhwng 2002 a 2011. Yn fwy diweddar, ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a Chynllun Gweithredu* (y Fframwaith). Cyflwynodd y Fframwaith hwn ddull newydd o weithredu yn seiliedig ar roi chwe elfen allweddol ar waith a chynnig dau gynnig newydd i bobl ifanc.

9 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu tri tharged sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET:

a gostwng canran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET i 9 y cant erbyn 2017;

b gostwng lefel y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET o gymharu â lefel gyffredinol y DU erbyn 2017; a

c chynyddu cyfran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant rhwng 19 a 54 y cant erbyn 2017.

10 Adolygodd tîm o Swyddfa Archwilio Cymru y Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu newydd ac edrychwyd ar gynnydd mewn 10 cyngor ledled Cymru cyn gweithredu'r Fframwaith ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Ystyriodd y tîm a yw'r sector cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa dda i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod Llywodraeth Cymru **mewn sefyllfa dda i helpu i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET ond nad yw mewn sefyllfa gystal i leihau nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET a phennu gwerth am arian.**

11 Hefyd, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad fod **cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i ostwng ymhellach gyfran y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig y rhai 16-18 oed, ond bod eu gwaith cynllunio yn amrywio ac mae cynghorau wedi gwneud llai o gynnydd o ran deall costau gwasanaethau a gwerthuso effeithiolrwydd eu hymyriadau.**

4 Data wedi'u casglu gan yr OECD ar bobl ifanc 15-24 oed. Mae gwahanol ddiffiniadau o 'NEET' yn golygu ei bod yn anodd gwneud cymariaethau cenedlaethol. I ddechrau defnyddiodd Llywodraeth y DU y term NEET ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ond bellach fe'i defnyddir yn gyffredin ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed. Mewn rhai gwledydd, yn enwedig lle mae pobl ifanc yn aml yn gorffen addysg uwch ar ôl 24 oed, gall y grŵp NEET gynnwys pobl hyd at 29 oed. www.oecd.org/els/emp/50305438.xlsx

## Mae camau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ymgysylltu â chynghorau a phartneriaid pwysig eraill ond nid oes ganddi ddealltwriaeth drylwyr o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei hamcanion

12 Mae Llywodraeth Cymru wedi hir nodi lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel blaenoriaeth. Bellach mae wedi adeiladu ar ei gwaith blaenorol i greu Fframwaith sy'n canolbwyntio ar gymorth ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. Mae elfennau o'r Fframwaith yn adlewyrchu tystiolaeth ymchwil o ddulliau llwyddiannus o leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru a thu hwnt, gan gynnwys adolygiad o ddulliau o leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn Abertawe a Wrecsam yn 2011. Fodd bynnag, mae llai o dystiolaeth bod y Fframwaith wedi'i lywio gan werthusiad o effeithiolrwydd ymyriadau unigol.

13 Aeth Llywodraeth Cymru ati i ymgysylltu'n helaeth â chynghorau a rhanddeiliaid eraill gan gynnwys Gyrfa Cymru er mwyn datblygu'r Fframwaith. Fodd bynnag, bu llai o ymgynghori â phobl ifanc eu hunain, yn enwedig y rhai sy'n debygol o fod bellach i ffwrdd oddi wrth addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Yn yr un modd, er bod nifer o gynghorau yn defnyddio dulliau arloesol o ymgysylltu â phobl ifanc, nid yw'r rhan fwyaf yn cymryd camau systematig i gynnwys safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

14 Amcangyfrifwn fod gwerth cyfunol gwariant Llywodraeth Cymru a gwariant Ewropeaidd a oedd yn gysylltiedig â lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET oddeutu £200 miliwn yn 2012-13. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru asesu cost gweithredu'r Fframwaith ar y dechrau. Yn hytrach, mae swyddogion wedi dweud wrthym, gan fod y Fframwaith yn cynrychioli arfer gorau, y gellir cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru drwy ailbennu ffocws gwariant presennol ar bobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gydgysylltu'r broses o reoli adnoddau a gwariant yn well drwy ei Bwrdd Rhaglen Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid trawsadrannol ei hun ac mae'n gwneud gwaith arall i ailgysoni cyllid Ewropeaidd yn y dyfodol fel ei fod yn cydweddu'n well â'i blaenoriaethau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. Fodd bynnag, mae gwasanaethau a threfniadau cyllido sy'n anelu at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn gymhleth. Mae angen i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid adolygu, nid dim ond mapio anghenion a gwasanaethau, ond hefyd yr adnoddau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir a'u heffeithiolrwydd i'w galluogi i gyflawni'r gwerth gorau am arian ac addasu'r trefniadau cyllido os oes angen.

## Os caiff ei weithredu'n llwyddiannus, mae Fframwaith a Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru yn debygol o wella'r broses o gynllunio, cydgysylltu a darparu gwasanaethau er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET, ond erys risgiau sylweddol

15 Mae'r Fframwaith yn rhoi cyfle i Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid wella'r broses o gydgysylltu gwasanaethau i bobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn NEET a lleihau dyblygu. Yn y Fframwaith, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio gwella'r broses leol o gydgysylltu gwasanaethau drwy nodi'n glir gyfrifoldebau am gydgysylltu darpariaeth NEET a sefydlu rôl newydd 'cydgysylltydd ymgysylltu a datblygu' ar gyfer pob ardal cyngor. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cymryd camau i roi ffocws i waith partneriaid allweddol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith, gan gynnwys ailstrwythuro gwasanaethau gyrfaoedd a datblygu strategaeth gwaith ieuenctid newydd ar gyfer Cymru yn 2014-2018.

16 Nodwyd bod cynghorau, ar y cyfan, yn croesawu cyflwyno Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Llywodraeth Cymru, er i rai fynegi pryderon ynghylch eu gallu i weithredu'r Fframwaith o ystyried yr heriau allweddol sy'n eu hwynebu. Bydd angen i Lywodraeth Cymru fonitro hyn yn ystod ei thrafodaethau ag uwch swyddogion cynghorau a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Mae pob un o'r 22 o gynghorau wedi llunio cynlluniau ar gyfer gweithredu'r Fframwaith erbyn mis Mawrth 2014.

17 Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon ynghylch elfennau o'r Fframwaith:

a Nid yw'r Fframwaith yn gwahaniaethu digon rhwng y bobl ifanc hynny sy'n NEET yn barhaus a'r rhai sy'n NEET am gyfnod byrrach. Mae'r diffyg gwahaniaethu hwn yn golygu y gallai cynghorau gyflawni targedau Llywodraeth Cymru i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET drwy sicrhau bod gwasanaethau yn canolbwyntio ar y rhai sydd angen cymorth leiaf er mwyn ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Gallai hyn fod yn werth gwael am arian oherwydd mae'r rhan fwyaf o 'bobl ifanc sy'n NEET ac yn agored i ddysgu' a 'heb benderfynu' yn debygol o ailymgysylltu heb fod angen llawer iawn o gymorth ac mae'r grwpiau hyn yn llai tebygol o beri'r costau mwyaf sylweddol i gymdeithas.

b Nid yw'r Fframwaith yn nodi'n glir sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau y caiff pobl ifanc o rai grwpiau ethnig, y rhai sy'n gadael gofal, troseddwyr ifanc a phobl ifanc ag anabledd sy'n wynebu mwy o risg eu helpu i mewn i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

c Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar bobl ifanc hyd at ac yn cynnwys 18 oed. Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru wrthym eu bod o'r farn bod y camau yn y Fframwaith i gynyddu cyfraddau ymgysylltu yn debygol o leihau nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET ond mae ymchwil a gwaith arolygu blaenorol wedi dangos nad yw gwell canlyniadau i bobl ifanc 16-18 oed bob amser yn trosi'n llai o bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET.

18 Mae'r gorgyffwrdd o ran cyfrifoldebau amrywiol rhwng adrannau Llywodraeth Cymru ac Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU yn gyfyngiad pwysig ar waith gyda phobl ifanc 19-24 oed a'r nifer gymharol fach o bobl ifanc 16-18 oed sy'n derbyn budd-daliadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i wella'r broses gyfathrebu â Llywodraeth y DU yn y maes hwn ac ar y cyfan nododd cynghorau fod cydberthnasau gwaith da â'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mewn rhai ardaloedd, mae'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru i sicrhau proses drawsnewid lyfnach i bobl ifanc wrth iddynt ddechrau hawlio budd-daliadau yn 18 oed, er bod gwaith yn mynd rhagddo i wneud y trefniadau hyn yn fwy cyson ledled Cymru. Mae data ar hawlwyr yn hanfodol er mwyn galluogi cynghorau a Gyrfa Cymru i dracio pobl ifanc ar ôl 18 oed. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n ceisio eglurder ynghylch y sefyllfa ddeddfwriaethol o ran rhannu data hawlwyr fel y gall ardaloedd lleol fynd ati i rannu data mewn ffordd gyson.

## Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau clir ar waith i fonitro cynnydd a dwyn cynghorau a'r rhan fwyaf o randdeiliaid cenedlaethol i gyfrif ond nid yw cynghorau na phartneriaid eraill wedi mabwysiadu ei thargedau er eu bod yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET

19 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r Fframwaith yn glir ac mae wedi cyflwyno dull o ddwyn cynghorau a rhai partneriaid eraill i gyfrif. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau hyn yn dibynnu'n fawr ar allu Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru i ddatblygu mesurau cyrchfannau parhaus i bobl ifanc.

20 Bydd angen i ddull Llywodraeth Cymru o ddwyn cynghorau i gyfrif adlewyrchu newidiadau yn y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau addysg. Yn ystod ein gwaith gyda chynghorau, gwnaethom nodi bod rhai trefniadau atebolrwydd lleol yn aneglur; nid oedd gan rai cynghorau dargedau na mesurau perfformiad, ac nid oedd gan rai brosesau ar gyfer dwyn partneriaid i gyfrif.

21 Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau bod atebolrwydd ei hadrannau ei hun am weithredu'r Fframwaith yn gliriach ac i gydgysylltu gweithgareddau adrannau polisi drwy greu Bwrdd Rhaglen y Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

22 Mae Fframwaith a Chynllun Gweithredu ar gyfer trechu Tlodi Llywodraeth Cymru yn cynnwys targedau cenedlaethol i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed a 19-24 oed a'r rhai sy'n gadael gofal sy'n NEET. Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn adrodd ar gynnydd i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET er ei fod ar ffurf wahanol. Nodwyd gennym, er bod yr holl gynghorau yn cyfeirio at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, nid yw'r mwyafrif wedi pennu targedau meintiol a, lle maent wedi gwneud hynny, nid oedd y targedau'n adlewyrchu rhai Llywodraeth Cymru.

## Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynlluniau digon clir i gyflawni ei hymrwymiadau i waith gwerthuso effeithiol a dysgu a rennir ac asesu gwerth am arian gwariant cyhoeddus sylweddol yn y maes hwn

23 Mae Llywodraeth Cymru a chynghorau wedi amlinellu buddiannau cymdeithasol lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET ond mae angen gwneud mwy o waith i fesur y buddiannau hyn.

24 Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i werthuso a galluogi dysgu a rennir er bod nifer o heriau i werthuso effaith y Fframwaith. Daeth ein gwaith i'r casgliad, er i Lywodraeth Cymru fynd ati i fonitro a gwerthuso ymyriadau unigol i ryw raddau ac ar lefel leol, roedd diffyg gwerthuso rheolaidd yn golygu nad oes asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd gwaith i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Nid yw Llywodraeth Cymru na chynghorau wedi cynnal asesiad trylwyr o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni gwell canlyniadau i bobl ifanc sy'n NEET. Mae'r bwlch hwn mewn gwybodaeth yn cyfyngu ar eu gallu i gynllunio yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o gostau a buddiannau'r trefniadau arfaethedig.

# Argymhellion

**Deall yn well y gwariant ar y gwasanaethau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith.**

A1 Amcangyfrifwn fod gwerth cyfunol gwariant Llywodraeth Cymru a gwariant Ewropeaidd a oedd yn gysylltiedig â lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET oddeutu £200 miliwn yn 2012-13. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru fynd ati'n systemataidd i asesu cost y ddarpariaeth y byddai angen ei chael i ategu gweithredu'r Fframwaith ar y dechrau ond cred y gall gyflawni ei hamcanion drwy ailbennu ffocws gwariant presennol ar gymorth cyflogaeth a phobl ifanc a chyflawni arfer gorau. Er mwyn meithrin dealltwriaeth o effeithiolrwydd a gwerth am arian ei gwariant, dylai Llywodraeth Cymru:

- a erbyn mis Hydref 2015, mapio ac adolygu, gyda phartneriaid, y gwariant ar wasanaethau i gyflawni'r Fframwaith fel y gall bennu cost-effeithiolrwydd y gwariant hwn; ac
- b adolygu p'un a oes angen gwneud addasiadau rhwng ffrydiau cyllido er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith yn well.

**Cyflawni ei thargedau i ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET**

A2 Yn y *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-2016* mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed i ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET o gymharu â gweddill y DU. Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar bobl ifanc 16-18 oed a chred Llywodraeth Cymru y bydd gwella dilyniant yr oedran hwn yn arwain at well canlyniadau ar gam hwyrach. Fodd bynnag, mae gwaith mewn mannau eraill wedi nodi bod angen i gynghorau barhau i gefnogi pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio ar ôl 18 oed. Gwnaethom nodi bod llawer o gynghorau yn dechrau ystyried sut y gall y camau a gymerir gyda phobl ifanc 16-18 oed gael eu haddasu ar gyfer y nifer fwy o bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET. Mae hyn yn cynnwys datblygu cysylltiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn lleol, sy'n chwarae rhan bwysicach gyda'r grŵp oedran. Er mwyn cyflawni ei thargedau i ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- a egluro ei dull strategol o leihau'r ymddieithrio a welir ymhlith pobl ifanc 19-24 oed a sut y bwriedir i'r Fframwaith gyflawni ei amcan o leihau ymddieithrio yn yr hirdymor;
- b gweithio gyda chynghorau sy'n dechrau datblygu eu gwaith gyda phobl ifanc 19-24 oed er mwyn rhannu dysgu sy'n dod i'r amlwg ac arfer da a sicrhau bod gwaith cynghorau a gwaith cynllunio yn gyson â blaenoriaethau a thargedau cenedlaethol;
- c adolygu ei gwariant ar gynorthwyo pobl ifanc 19-24 oed gan gynnwys i ba raddau y mae ffrydiau ariannu wedi'u cydgysylltu a'u cysoni â'i blaenoriaethau er mwyn asesu a yw lefelau cyllid presennol yn debygol o gyflawni targedau Llywodraeth Cymru;

ch ystyried cost-effeithiolrwydd y mesurau sydd ar waith ar hyn o bryd; ac

d adeiladu ar ei chysylltiadau datblygol ag Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU er mwyn cydgysylltu ei darpariaeth â darpariaeth orfodol ar gyfer pobl ifanc ddi-waith tymor hwy.

**Cyflawni gwelliannau hirdymor mewn canlyniadau i'r rhai sydd fwyaf tebygol o fod yn NEET ar hyn o bryd**

A3 Mae pobl ifanc sy'n NEET yn wynebu amrywiaeth o rwystrau gwahanol i gymryd rhan mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Mae pobl ifanc sy'n anabl, â salwch cronig, ag anghenion addysgol arbennig, â chyfradd presenoldeb wael yn yr ysgol a lefel cyrhaeddiad wael, yn ogystal â'r rhai o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, yn fwy tebygol o ddod yn NEET. Mae gan rieni ifanc gyfradd ymddieithrio uchel. Fodd bynnag, nid yw targedau Llywodraeth Cymru yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n NEET yn barhaus neu'n greiddiol a'r rhai sydd ond allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant dros dro er gwaethaf y ffaith bod angen i'r grwpiau hyn gael ymatebion polisi gwahanol. Bydd canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n NEET yn barhaus hefyd yn arwain at yr arbedion mwyaf o ran arian cyhoeddus. Mae risg y gallai targedau Llywodraeth Cymru gael eu cyflawni heb wella canlyniadau i'r rhai sy'n peri'r her fwyaf. Er mwyn osgoi'r fath risg, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

a bod yn fwy eglur ynghylch yr hyn y mae'n disgwyl i gynghorau ei wneud o ran canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n NEET yn barhaus a mwyaf costus i'r sector cyhoeddus er mwyn osgoi'r risg y cyflawnir ei thargedau heb effeithio ar y rheini sydd bellaf o'r farchnad lafur;

b gyda chynghorau, trafod eu cynlluniau gweithredu gan gyfeirio'n benodol at anghenion pobl ifanc sy'n wynebu risg uchel o fod yn NEET, gan gynnwys y bobl ifanc hynny sydd â nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb Sengl a rhieni yn eu harddegau; ac

c ystyried ei threfniadau ar gyfer adrodd ar ganlyniadau i bobl ifanc â nodweddion gwarchodedig a rhieni yn eu harddegau fel yr amlinellir yn ei Chynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2012.

**Sicrhau bod Llywodraeth Cymru, cynghorau a'u partneriaid yn gweithio tuag at dargedau ac amcanion a rennir ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET**

A4 Ar y cyfan, mae cynghorwyr a swyddogion llywodraeth leol yn dangos lefel uchel o ymrwymiad i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Mae lefel uchel o ddealltwriaeth o ffactorau risg a chostau cymdeithasol bod yn NEET. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd pob cyngor wedi datblygu targedau ar gyfer NEET y gellid asesu eu perfformiad yn eu herbyn. Lle pennwyd targedau, nid oeddent bob amser yn gyson â thargedau Llywodraeth Cymru. Er mwyn pennu targedau a sicrhau y gall cynghorau a phartneriaid gael eu dwyn i gyfrif am berfformiad, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

a gwneud mwy i sicrhau bod mesurau a thargedau lleol a chenedlaethol yn fwy cyson drwy ddefnyddio'r cyfarfodydd a gynhelir ddwywaith y flwyddyn a'r adolygiad o gynlluniau gweithredu er mwyn sicrhau bod amcanion a thargedau lleol yn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol;

b annog cynghorau i ddatblygu targedau CAMPUS sy'n dangos cynnydd tuag at y nodau a galluogi'r cyngor a'i bartneriaid cyflawni i gael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad; ac

c asesu goblygiadau newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau addysg yn dilyn Adolygiad Hill a newidiadau posibl i'r ffordd y darperir gwasanaethau cyhoeddus yn dilyn adroddiad y *Comisiwn ar Ddarparu a Llywodraethu Gwasanaethau Cyhoeddus ar y trefniadau i weithredu ei Fframwaith*.

**Gwerthuso effaith y Fframwaith a lledaenu arfer da**

A5 Bu cryn dipyn o ymchwil i'r rhesymau pam mae pobl ifanc yn ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Fe'i crynhowyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru a down i'r casgliad fod y Fframwaith yn seiliedig ar hyn a thystiolaeth o ddulliau o leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET mewn dau gyngor yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn llai clir ynghylch effeithiolrwydd ymyriadau penodol ac, yn arbennig, werth am arian nifer fawr o brosiectau a rhaglenni sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu'r risg o hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso effaith y Fframwaith a galluogi dysgu a rennir, er bod nifer o heriau i werthuso ei effaith a phennu gwerth am arian yn llwyddiannus. Er mwyn darparu tystiolaeth ar effeithiolrwydd y Fframwaith a'i werth am arian, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

a trafod cynlluniau i werthuso prosiectau a rhaglenni a ariennir gan gynghorau a'r trydydd sector yn lleol yn eu cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda'r nod o lunio canlyniadau ac allbynnau cymaradwy fel y gall cynghorau asesu priod effeithiolrwydd ymyriadau â phobl ifanc;

b datblygu methodoleg ar gyfer asesu gwerth am arian prosiectau a rhaglenni y gall cynghorau a'u partneriaid eu defnyddio yn eu gwerthusiadau eu hunain;

c ar y cyd â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a chynghorau, cytuno sut i werthuso a monitro gwasanaethau unigol mewn ffordd sy'n ei gwneud yn bosibl i gymharu ymyriadau ac sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i bennu gwerth am arian; a

ch chynnwys asesiad o effaith y Fframwaith ar is-grwpiau o bobl ifanc o fewn y boblogaeth NEET mewn data monitro ac unrhyw werthusiadau a gomisiynir.

Rhan 1

Mae camau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ymgysylltu â chynghorau a rhai partneriaid pwysig ond nid oes asesiad trylwyr o'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni ei hamcanion



## Mae Llywodraeth Cymru wedi adeiladu ar ei gwaith blaenorol i greu Fframwaith sy'n cynnwys chwe elfen allweddol a dau gynnig newydd i bobl ifanc 16-18 oed

1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi hir nodi lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel blaenoriaeth genedlaethol. Yn yr un modd bu lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn flaenoriaeth i gynghorau yn hanesyddol hefyd. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar, mae cyfran y bobl ifanc 16 -18 oed sy'n NEET wedi aros yn sefydlog sef rhwng 12 a 13 y cant.

1.2 Cafodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu i'r eithaf addysg, hyfforddiant a chyflogaeth pobl ifanc ei gynnwys fel rhan o'i rhaglen 'Ymestyn Hawliau' yn 2000 a nododd ddisgwyliadau ar gyfer darparu Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid yng Nghymru. Datblygodd Llywodraeth Cymru y gwaith hwn yn ei strategaeth addysg ar gyfer 2003 a gafwyd yn 'Cymru: Y Wlad sy'n Dysgu', a oedd yn cynnwys targed i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

1.3 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth NEET benodol gyntaf yn 2009 yn 'Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru'. Canolbwyntiodd y papur thema ategol 'Lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - darparu sgiliau sy'n gweithio i Gymru' ar bobl ifanc 16-18 oed ac roedd yn seiliedig ar roi'r systemau cywir ar waith i nodi ac ailymgysylltu pobl ifanc sy'n dod yn NEET. Nod y strategaeth oedd darparu amrywiaeth llawn o opsiynau dysgu a dysgu a chymorth personol penodol a dwys, ynghyd â chyngor ac arweiniad gyrfaoedd, er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod sut i gael addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a'u galluogi i oresgyn rhwystrau personol sydd weithiau'n sylweddol i gyfranogi. Ym mis Mai 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen a gadeiriwyd gan Michael Mansfield o TUC Cymru a oedd yn cynnwys dadansoddiad o'r prif rwystrau sy'n wynebu pobl ifanc sy'n NEET. Yn dilyn yr adroddiad hwnnw, awgrymodd Llywodraeth Cymru nifer fawr o gamau i ategu Strategaeth 2009, gan gynnwys gweithio gydag unigolion a theuluoedd sydd dan anfantais, ymyriadau ôl 16 a gwaith rheoli i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET[5].

1.4 Archwiliodd Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET yn 2010 a gwnaeth 18 o argymhellion ar gyfer gwella darpariaeth[6]. Ym mis Ionawr 2011, rhoddodd y Gweinidog Plant, Addysg a Dysgu Gydol Oes ar y pryd fanylion Cynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc 18 pwynt newydd ar gyfer 2011-2015, yn rhannol mewn ymateb i gydnabyddiaeth bod yr hinsawdd economaidd wedi newid ers i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Strategaeth yn 2009. Roedd y Cynllun Gweithredu yn cynnwys amrywiaeth o fentrau, yr oedd disgwyl i'r rhan fwyaf ohonynt gael eu cwblhau erbyn mis Mai 2013. Hefyd amlinellodd datganiad y Gweinidog gyfraniadau rhaglenni ataliol gan gynnwys Dechrau'n Deg, y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r Strategaeth Tlodi Plant y credai Llywodraeth Cymru y byddai'n arwain at fwy o ymgysylltu â phobl ifanc.

1.5 Yn 2012, creodd Llywodraeth Cymru yr Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Pobl Ifanc o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau. Gwnaeth yr isadran hon ddwyn ynghyd wahanol feysydd polisi sy'n ymwneud â phobl ifanc 11-25 oed. Mae'r isadran wedi arwain y gwaith o ddatblygu dull gweithredu newydd.

5 Llywodraeth Cymru (2010) *Adolygiad a Chynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc* Mai 2010.
6 Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant* Hydref 2011

1.6 Ym mis Ionawr 2013, gwnaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau ddatganiad yn amlinellu cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu gan gyflwyno Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. Ym mis Ebrill 2013, cadarnhaodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd y byddai'r Fframwaith yn seiliedig ar chwe elfen:

a nodi pobl ifanc sydd fwyaf tebygol o ymddieithrio;

b gwell broceriaeth a chydgysylltu o ran cymorth;

c prosesau tracio a phontio cryfach drwy'r system i bobl ifanc;

ch sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu anghenion pobl ifanc;

d atgyfnerthu sgiliau cyflogadwyedd a chyfleoedd i gael cyflogaeth; a

dd gwell atebolrwydd i sicrhau gwell deilliannau i bobl ifanc.

1.7 Mae'r Fframwaith a gyhoeddwyd ar 1 Hydref 2013 yn darparu canllawiau anstatudol sy'n ategu Ymestyn Hawliau, gan nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru o ran darparu gwasanaethau cymorth ieuenctid wedi'u targedu yn llwyddiannus. Fel y cyfryw, mae'n adeiladu ar gamau gweithredu yn y cynllun blaenorol: er enghraifft, mae'r Fframwaith yn adlewyrchu'r argymhelliad yn adroddiad y Cynulliad Cenedlaethol y dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith i nodi'n gywir bobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (argymhelliad 6). Un o'r chwe elfen yw datblygu dull effeithiol o'u nodi'n gynnar, er bod canllawiau Llywodraeth Cymru ar hyn a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2014 yn cydnabod na fydd y camau a gymerir yn gyson ledled Cymru gan fod rhai cynghorau eisoes wedi datblygu dulliau o nodi'r rhai sy'n wynebu risg.

1.8 Mae'r Fframwaith hefyd yn cynnwys dau gynnig newydd i bobl ifanc o dan 18 oed:

a **Gweithiwr arweiniol** ar gyfer y bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf er mwyn helpu i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu mewn ffordd gydgysylltiedig a bod y pecyn cymorth yn diwallu eu hanghenion. Disgwylir i weithwyr arweiniol fod wedi'u penodi ymhob cyngor erbyn mis Medi 2014. Ym marn Llywodraeth Cymru dylai gweithiwr arweiniol sy'n cynnig un pwynt cyswllt ac sy'n gallu cydgysylltu ag asiantaethau eraill helpu i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu ac osgoi'r achosion o ddyblygu, gorgyffwrdd a dryswch a brofir gan lawer o bobl ifanc. Fel arfer bydd y gweithiwr arweiniol naill ai'n gynghorydd Gyrfa Cymru neu'n weithiwr ieuenctid. Mae'r rôl 'broceriaeth' hon yn rhan bwysig o'r Fframwaith ac mae'n dangos datblygiad o ran argymhelliad Pwyllgor y Cynulliad Cenedlaethol y dylai hyfforddwr ymgysylltu neu ddysgu fod ar gael ar bob cam o fywyd person ifanc er mwyn darparu cymorth ar faterion teuluol, ariannol, addysgol neu iechyd (argymhelliad 18). Fodd bynnag, yn wahanol i'r rhan fwyaf o drefniadau broceriaeth, ni fydd y gweithiwr arweiniol yn gallu cael mynediad i gyllidebau unigol sy'n gysylltiedig â'r person ifanc ond bydd yn cydgysylltu cymorth gan y gwasanaethau sydd ar gael yn lleol.

b **Gwarant Pobl Ifanc** er mwyn helpu i sicrhau bod gan bob person ifanc le dysgu ôl 16 addas. Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at sicrhau y gall pobl ifanc ddechrau ar eu cynigion o dan y Warant ym mis Medi a mis Hydref 2015. Mae rhai ardaloedd wedi treialu

camau tebyg yn barod, er enghraifft 'Gwarant Abertawe' sy'n cynnig addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant i bob disgybl sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 (16 oed) yn Abertawe. Ategir Gwarant Ieuenctid Llywodraeth Cymru gan amserlen sy'n rhoi manylion y mathau o gymorth sydd ar gael i ddisgyblion ar wahanol gamau yn ystod blwyddyn 10 (15 oed) a blwyddyn 11 (16 oed). Mae hefyd yn disgrifio rolau clir ar gyfer ysgolion a Gyrfa Cymru. Ymddengys fod hyn yn eithaf tebyg i 'warantau mis Medi a mis Ionawr' Lloegr lle gall pobl ifanc 16 a 17 oed gael cynnig addas o addysg neu hyfforddiant yn yr ysgol, coleg neu hyfforddiant seiliedig ar waith. Yn Lloegr, mae'r gwarantau yn gysylltiedig â'r cynnydd mewn oedran lle nad yw pobl ifanc yn gorfod mynychu addysg na hyfforddiant mwyach[7]. Mae Llywodraeth Cymru wedi dilyn trywydd gwahanol i Lywodraeth y DU: anogir pobl ifanc i barhau mewn addysg neu hyfforddiant ar ôl 16 oed ac mae amrywiaeth o opsiynau ar gael ond nid yw'n orfodol eu dilyn. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar ei chanllawiau i awdurdodau lleol sy'n cynnig y Warant Ieuenctid gan gynnwys ar yr opsiwn i'w hymestyn i bobl ifanc sy'n gadael addysg yn 17 oed (Blwyddyn 12)[8].

## Mae'r Fframwaith yn adlewyrchu tystiolaeth ymchwil ac asesiad o'r camau a gymerir mewn dau gyngor yng Nghymru ond mae llai o dystiolaeth ar gael o effeithiolrwydd ymyriadau unigol

1.9 Fel y disgrifiwyd uchod, bu cryn weithredu dros y degawd diwethaf gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, cynghorau a'r trydydd sector sydd wedi anelu at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Er i nifer y bobl ifanc sy'n NEET fod oddeutu 12 y cant am sawl blwyddyn, cwympodd y gyfran i ychydig dros 10 y cant yn 2012, o bosibl o ganlyniad i'r gweithgarwch sylweddol, er na wnaed unrhyw ddadansoddiad o achosion y cwymp hwn hyd yma.

1.10 Mae elfennau o Fframwaith Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar ffactorau a nodwyd mewn ymchwil flaenorol fel rhai sydd i'w gweld o fewn dulliau llwyddiannus o leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru a thu hwnt. Er enghraifft, nododd adolygiad o ddulliau gweithredu mewn 10 cyngor yn Lloegr sydd â chyfraddau isel o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET gan Ofsted yn 2010[9] fod gan yr ardaloedd mwyaf llwyddiannus fesurau hirsefydledig i nodi'r rhai sy'n wynebu risg. Roedd y cynghorau hyn wedi cyflwyno mesurau ataliol effeithiol fel monitro'n ofalus bobl ifanc unigol a allai fod yn agored i niwed a chefnogi'r broses o symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Hefyd cyfeiriodd yr adolygiad at bwysigrwydd defnyddio data yn dda er mwyn cynllunio rhaglenni a sicrhau bod adnoddau yn targedu grwpiau a chymdogaethau penodol. Mae'r elfennau hyn i gyd i'w gweld yn Fframwaith Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nododd Ofsted

7 Yn dilyn Deddf Addysg a Sgiliau 2008, bydd yr oedran lle nad yw'n ofynnol i bobl ifanc fynychu addysg neu hyfforddiant mwyach yn codi yn Lloegr i 17 oed yn 2013 a 18 oed yn 2015. Yn ymarferol, ni ddisgwylir i bobl ifanc aros yn yr ysgol neu barhau â dysgu academaidd traddodiadol ond cynigir dewis addas iddynt i barhau â'u haddysg neu hyfforddiant a allai gynnwys swydd neu leoliad gwaith sy'n gysylltiedig ag elfen hyfforddi.

8 Llywodraeth Cymru (2014) *Rhoi'r Warant Ieuenctid ar Waith yng Nghymru: Canllawiau Drafft* http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/youthengagement/delivering-the-youth-guarantee-in-wales/?skip=1&lang=cy

9 Ofsted (2010) *Reducing the numbers of young people not in education, employment or training: what works and why*

(2010) hefyd, lle bo angen, y dylai ardaloedd lleol barhau i gefnogi pobl ifanc ar ôl 18 oed hyd at gyflogaeth oedolion tymor hwy, lle mae'r Fframwaith ond yn canolbwyntio ar gymorth hyd at 18 oed.

1.11 Wrth ddatblygu'r Fframwaith, gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd ddibynnu'n sylweddol ar yr adolygiad a gomisiynwyd ganddo yn 2011[10] o waith yng Nghynghorau Abertawe a Wrecsam i leihau nifer y bobl ifanc o dan 18 oed sy'n NEET. Nododd yr ymchwil hon elfennau a oedd yn bwysig i waith llwyddiannus a gwelsom fod gwaith yn dal i fynd rhagddo ers i'r ymchwil gael ei chynnal (Blwch 1). Cymerodd swyddogion o Abertawe a Wrecsam ran mewn trafodaethau ynghylch datblygu'r Fframwaith.

1.12 Nododd ymchwil 2011 yn Abertawe a Wrecsam nodweddion a oedd yn gyffredin i ddulliau gweithredu llwyddiannus, yn hytrach na gwerthusiad ffurfiol o effeithiolrwydd dulliau gweithredu penodol. Yn yr un modd, gwnaeth Ofsted (2010) hefyd nodi ffactorau a oedd yn gyffredin i ardaloedd â niferoedd isel o bobl ifanc sy'n NEET. Fodd bynnag, mae llai o wybodaeth am effaith elfennau o'r dull gweithredu neu ymyriadau unigol.

**Blwch 1 – Cafodd arfer da wrth leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghynghorau Abertawe a Wrecsam ei adolygu'n annibynnol yn 2011 ac mae wedi'i gynnal yn dilyn hynny**

Yn 2011, comisiynodd Llywodraeth Cymru brosiect ymchwil i edrych ar lwyddiant ymddangosiadol gwaith yng nghynghorau Abertawe a Wrecsam i ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET. Nododd ffactorau y credir eu bod yn gysylltiedig â llwyddiant ac sydd, yn dilyn hynny, wedi dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r Fframwaith. Ymwelwyd ag Abertawe a Wrecsam er mwyn ymchwilio i berfformiad parhaus wrth ostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET.

Gwelwyd bod Cynghorau Abertawe a Wrecsam wedi llwyddo i barhau â'r gwaith o dargedu pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Mae gostwng lefelau NEET wedi parhau i fod yn amcan strategol pwysig, a gaiff ei lywio gan uwch arweinwyr, ac mae gan y ddau gyngor strwythurau ar waith i sicrhau bod proses adrodd ac atebolrwydd reolaidd ar waith. Disgrifiodd y ddau gyngor gydberthnasau gwaith cadarnhaol gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys ysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a Gyrfa Cymru ac maent yn gweithio fwyfwy gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau yn lleol wrth iddynt ddechrau canolbwyntio ar y grŵp oedran 18-24 oed. Yn Abertawe, nododd staff y Cyngor a sefydliadau partner fod y model ymgysylltu pum haen lleol, Gwarant Abertawe a'r broses gwneud cais ar-lein yn ddefnyddiol o ran egluro rolau a chyfrifoldebau a rhannu gwybodaeth am anghenion pobl ifanc.

Ymhlith nodweddion pwysig yr hyn a wneir yn Abertawe a Wrecsam mae'r canlynol:

- nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn NEET drwy gyfuniad o brosesau agored i niwed a arweinir gan ymarferwyr a data. Yn Abertawe, cesglir data gan Swyddog Prosiect KIT (Cadw mewn Cysylltiad) sy'n tracio carfannau NEET yn hytrach na grwpiau oedran er mwyn nodi tueddiadau a llwybrau unigol a gymerir gan bobl ifanc;
- ymarferion i fapio'r broses o ddarparu gwasanaethau i bobl ifanc;
- prosiectau i gefnogi pobl ifanc ag anghenion a ffactorau agored i niwed ychwanegol; a
- ffocws newydd a chynyddol ar y grŵp oedran 18-25 oed; drwy brosiect STARS ar gyfer oedolion ifanc agored i niwed 16-25 oed yn Wrecsam a datblygu model pum haen er mwyn targedu grwpiau blaenoriaeth uchel 18-24 oed yn Abertawe.

Mae'r ddau gyngor yn parhau i ddatblygu agweddau newydd ar eu gwasanaethau. Mae Abertawe wrthi'n datblygu e-borth o'r enw 'Inform Abertawe', a fydd yn gweithredu fel marchnadle ar-lein ar gyfer darparwyr hyfforddiant gan gynnwys gwybodaeth a chymorth i geiswyr swyddi. Mae Wrecsam yn gweithio ar ymgorffori'r Model Pum Haen a datblygu'r broses o nodi'r bobl ifanc hynny sy'n wynebu risg o ddod yn NEET ym Mlwyddyn 7.

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru*

10 Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi, *New Models of Service Delivery – A Study of Approaches to Increase the Proportion of Young People in Education, Employment or Training, with a Focus on Potential and Actual Efficiency Savings. Final Report.* Arad Research Gorffennaf 2011

## Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda chynghorau a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu'r Fframwaith a'i Gynllun Gweithredu ategol ond ni wnaeth ddibynnu'n sylweddol ar safbwyntiau na phrofiadau uniongyrchol pobl ifanc

1.13 Cynhaliodd Llywodraeth Cymru raglen ymgynghori sylweddol gydag awdurdodau lleol wrth fynd ati i ddatblygu ei Fframwaith. Gofynnodd i bob cyngor asesu ei wasanaethau a'i berfformiad yn erbyn y Fframwaith arfaethedig. Hefyd, dechreuodd Llywodraeth Cymru gynnal cyfres o weithdai a oedd yn cynnwys ymarferwyr a swyddogion ar agweddau ar y Fframwaith gan gynnwys broceriaeth, nodi cynnar ac atebolrwydd. Gweithiodd Llywodraeth Cymru yn fanylach gydag wyth cyngor er mwyn treialu elfennau o'r Fframwaith. Fodd bynnag, ni chafodd y Fframwaith cyfan ei dreialu, heblaw am yn Abertawe a Wrecsam, lle'r oedd yr elfennau eisoes wedi cael eu rhoi ar waith.

1.14 Mae'n bwysig bod profiadau pobl ifanc yn llywio'r gwaith o gynllunio unrhyw gamau y bwriedir eu cymryd er mwyn helpu pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio neu sy'n wynebu risg o hynny. Gall eu safbwyntiau a'u profiadau helpu i oresgyn y rhwystrau y mae pobl ifanc yn eu hwynebu i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Yn 2010, mewn ymateb i ymrwymiad o dan gytundeb Cymru'n Un i ymchwilio i achosion ymddieithrio, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o dystiolaeth ymchwil ynghylch y ffactorau sy'n sbarduno ymddieithrio. Cafwyd cyfoeth o ymchwil ynghylch achosion ymddieithrio o'r DU a thu hwnt (Blwch 2). Fodd bynnag, dywedodd yr awduron fod y rhan fwyaf o'r deunydd yn seiliedig ar wybodaeth gan athrawon a gweithwyr ieuenctid yn hytrach na phobl ifanc eu hunain[11].

**Blwch 2 – Mae amrywiaeth o ffactorau sbardun yn gysylltiedig â phobl ifanc sy'n NEET**

Nododd adolygiad o dystiolaeth ymchwil a gynhaliwyd ar ran Llywodraeth Cymru yn 2010 amrywiaeth o ffactorau sy'n gysylltiedig â NEET. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Ffactorau addysgol sy'n cynnwys:
  - cyrhaeddiad addysgol isel;
  - cyfnodau pontio anodd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
  - rhwystredigaeth gynyddol â lefelau cyflawni yn yr ysgol uwchradd;
  - lefelau isel o lythrennedd a rhifedd/gallu/lefelau cyrhaeddiad;
  - ymddygiad anfoddhaol;
  - presenoldeb gwael mewn ysgolion;
  - profiad gwael o'r ysgol, er enghraifft profi bwlio; a
  - diffyg dewis o ran darpariaeth a dilyniant.
- Ffactorau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys y rhai o deuluoedd incwm isel lle ceir traddodiad o oedolion nad ydynt yn ymgymryd â chyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach a/neu uwch a/neu nad ydynt yn cefnogi addysg.
- Ymddygiad ac agweddau rhieni gan gynnwys:
  - yr amgylchedd dysgu yn y cartref;
  - yr amgylchedd gofalu o fewn y cartref;
  - diffyg ymwneud rhieni yn addysg y plentyn;
  - Anghenion Addysgol Arbennig (AAA); a
  - phroblemau iechyd gan gynnwys anabledd ac iechyd meddwl.
- Ymddygiad ac agweddau pobl ifanc.
- Amgylchiadau teuluol a phersonol gan gynnwys:
  - cefndiroedd teuluol heriol;
  - plant sy'n derbyn gofal;
  - merched beichiog yn eu harddegau a mamau ifanc;
  - bod â chyfrifoldebau gofalu;
  - troseddwr ifanc; a
  - digartrefedd.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2010), Adolygiad a Chynllun Gweithredu Ymgysylltiad a Chyflogaeth Pobl Ifanc, Atodiad 6 a thudalennau 16-17.*

11 Lloyd-Jones, S., Bowen, R., Holtom, D., Griffin, T., a Sims, J. (2010) *Astudiaeth ymchwil ansoddol i archwilio ymddieithriad pobl ifanc o ddysgu*, Llywodraeth Cymru SR 04/2010

1.15 Fel rhan o'n gwaith gyda chynghorau, gwelsom nifer o enghreifftiau arloesol lle defnyddiodd cynghorau y we neu gyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â phobl ifanc. Hefyd, gwelsom sawl enghraifft o gynghorau yn ymgysylltu â phobl ifanc ynghylch eu profiadau a'u gwasanaethau. Fodd bynnag, daethom i'r casgliad nad oedd y rhan fwyaf o gynghorau yn mynd ati'n systematig i ystyried safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

1.16 Mae gan Lywodraeth Cymru raglen ymgynghori o'r enw 'y Sgwrs Go Iawn' sy'n anelu at ddwyn ynghyd bobl ifanc, cyflogwyr ac ymarferwyr i drafod materion addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Caiff y rhaglen hon ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Ym mis Mehefin 2013, canolbwyntiodd y digwyddiad ymgynghori ar yr hyn roedd angen ei wneud i helpu a chefnogi pobl ifanc i aros yn yr ysgol, cael yr hyfforddiant cywir ac unrhyw wasanaethau eraill er mwyn cael y swydd iawn a chynlluniwyd y drafodaeth mewn ffordd a fyddai'n llywio'r Fframwaith datblygol. Cymerodd dros 100 o bobl ifanc a 100 o gyflogwyr, ymarferwyr o gyrff hyfforddi, Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill ran. Er i sylwadau gwerthuso pobl ifanc fod yn gadarnhaol ar y cyfan, nodwyd gennym mai cyfyngedig fu llwyddiant y digwyddiad o ran ymgysylltu â phobl ifanc a oedd fwyaf tebygol o fod yn NEET. Hefyd, nid oedd y math o ddigwyddiadau a gynhaliwyd na'r cwestiynau a ofynnwyd yn gyfystyr â'r ffordd fwyaf priodol o ymgysylltu â'r grŵp hwn. Dywedodd rhai darparwyr dysgu seiliedig ar waith a sefydliadau trydydd sector wrthym nad oedd y fformat yn addas i'r bobl ifanc a gymerodd ran.

## Nid yw dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o wariant cyfredol yn y maes hwn er ei bod yn cymryd camau i wella'r broses o gydgysylltu cyllid Llywodraeth Cymru ac Ewrop

### Nid yw dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o wariant cyfredol yn y maes hwn, sydd, yn ôl ein hamcangyfrifon, oddeutu £200 miliwn yn 2013-14

1.17 Yn 2010, aeth Tasglu Llywodraeth Cymru ar ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc[12] ati i archwilio ffrydiau ariannu cymhleth sy'n cefnogi gwaith i wella ymgysylltu a chyflogaeth pobl ifanc. Cynigiodd y Tasglu adolygu cyllid ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd cyfanswm y gwariant. Byddai'r adolygiad arfaethedig yn anelu at sicrhau nad oedd gweithgareddau nac adnoddau yn cael eu dyblygu, dwyn adnoddau ynghyd er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau i'r plentyn neu'r person ifanc a rheoli'r dyraniadau prosiect a chyllid yn well ynghyd â chydgysylltu gwariant Llywodraeth Cymru a'r UE yn well. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o'r fath eto.

1.18 Gwnaethom archwilio'r broses o ariannu mentrau a meysydd polisi y gellid dweud eu bod yn effeithio ar leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Er nad oes modd nodi gwariant 'NEET', gan fod cryn dipyn o'r arian hwn yn targedu pobl ifanc yn fwy cyffredinol, amcangyfrifwn fod cyfanswm cyfunol gwariant 'cysylltiedig â NEET' Llywodraeth Cymru a Chronfa Gymdeithasol Ewrop oddeutu £200 miliwn yn 2013-14 nawdd (Tablau 1 a 2).

12 Welsh Government (2010) *Young people engagement and employment action plan*, May 2010 Annex 5 and Recommendation 4e

1.19 Mae gwariant cysylltiedig â chyflogaeth Llywodraeth Cymru yn cynnwys amrywiaeth o gyllid i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a'r gweithlu a chynyddu cyfleoedd gwaith a phrofiad gwaith. Mae cryn dipyn o'r gwariant ar brentisiaethau (dros £15 miliwn) a Twf Swyddi Cymru (£12.5 miliwn) yn targedu pobl ifanc hyd at 24 oed sy'n cyrraedd lefelau cyflawni cymedrol i uchel ac felly nis cynhwysir yn ein cyfrifiad o wariant cysylltiedig â NEET. Mae rhaglenni eraill - fel rhaglenni hyfforddi - yn fwy cysylltiedig â chefnogi pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Gwariwyd ychydig dros £20 miliwn yn 2013-14 ar y rhaglenni hyn. Mae amrywiaeth o wasanaethau, grantiau a rhaglenni eraill yn canolbwyntio ar helpu ysgolion a darparwyr addysg bellach a hyfforddiant i wella canlyniadau i'r rhai o gymunedau difreintiedig i helpu pobl ifanc yn uniongyrchol neu'r gwasanaethau sy'n darparu cymorth. Ymhlith y rhain mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion, Lwfans Cynhaliaeth Addysg a Chronfa wrth Gefn Ariannol a chyllid Gyrfa Cymru. Gwariodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £166 miliwn ar y meysydd hyn yn 2013-14 (Tabl 1).

Tabl 1 – Roedd cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni 'cysylltiedig â NEET' yn 2013-14 yn gyfanswm o £166 miliwn

| Rhaglenni a gwariant | 2013-14<br>£ miliynau |
|---|---|
| **Cysylltiedig â chyflogaeth** | **20.2** |
| Cymhorthdal recriwtiaid ifanc | 2.3 |
| Hyfforddeiaethau 2011-2014 | 6.1 |
| Camau at waith | 9.2 |
| Llwybrau at Brentisiaethau | 2.6 |
| **Cysylltiedig ag addysg** | **146.0** |
| Grant Amddifadedd Disgyblion ac Arian Cyfatebol Cymunedau yn Gyntaf | 35.2 |
| Gyrfa Cymru | 30.0 |
| Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal) | 28.8 |
| Lwfansau Cynhaliaeth Addysg | 26.2 |
| Grantiau a ffioedd rhan-amser | 11.3 |
| Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn | 9.0 |
| Grant Refeniw Gwasanaethau Ieuenctid | 3.8 |
| Ymgysylltiad a Chyflogaeth arall Pobl Ifanc | 1.7 |
| **Cyfanswm gwariant** | **166.2** |

*Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru, dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru*

1.20 Mae cymorth ariannol yr Undeb Ewropeaidd drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop wedi cefnogi ystod helaeth o brosiectau yn ystod 2007-2014 er mwyn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i gael gwaith. Rheolir y gwariant hwn gan WEFO. Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau a'r rhaglenni hyn wedi cael eu hariannu am gyfnodau o dair i bum mlynedd. Hyd yn hyn, mae'r rhan fwyaf o bobl ifanc sy'n cael budd o'r rhaglenni hyn yn ddysgwyr sydd wedi dadrithio yn yr ysgol sy'n wynebu risg o ymddieithrio. Daeth rhai o'r prosiectau hyn, fel prosiect 'Ymgysylltu' De-orllewin Cymru gwerth £21 miliwn, i ben yn ystod 2012-13. Dyfarnwyd cyfanswm o £132 miliwn i rai o'r prif gynlluniau sy'n berthnasol i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET ac a barhaodd yn 2013-14. Mae'n debygol bod hyn yn cyfateb i wariant blynyddol sydd dros £40 miliwn bob blwyddyn (Tabl 2).

Tabl 2 – Cefnogodd Cronfa Gymdeithasol Ewrop ystod helaeth o brosiectau ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu'r risg o hynny yn 2013-14

| Prosiectau a gefnogwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a fu'n weithredol yn 2013-14 | Cyfanswm yr arian dros 3-5 mlynedd £ miliynau |
|---|---|
| Rhaglenni a reolir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys:<br>• Cyrraedd y Nod - 'Troedle Cyntaf' a 'Llwybrau i'r Brig'<br>• Rhaglenni Hyfforddi o'r Radd Flaenaf<br>• Prosiect Dysgu a Chyflawni Lleiafrifoedd Ethnig<br>Prosiectau eraill gan gynnwys:<br>• Adeiladu'r Dyfodol gyda'n Gilydd<br>• PRE-VENT<br>• Potensial<br>• Disgyblion yn Deall eu Problemau yn eu Hardal<br>• Gwella sgiliau a dyheadau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig II | |
| Cronfeydd yr UE | 75.4 |
| Arian cyfatebol | 56.6 |
| **Cyfanswm** | **132.0** |
| **Cyllid blynyddol amcangyfrifedig** | **40.0** |

*Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru, dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru*

## Ni wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried cost cyflawni ei holl dargedau ond cred y dylai ailbennu ffocws cyllid cyfredol fod yn ddigon i gyflawni ei hamcanion ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed

1.21 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru achos busnes yn amlinellu effaith, cyllid, fforddiadwyedd a threfniadau rheoli cyflawni'r Fframwaith ym mis Gorffennaf 2013, ar ôl i'r Cabinet gymeradwyo hyn ym mis Chwefror 2013. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru gyfrifo cost gweithredu'r Fframwaith. Yn hytrach, gan fod y Fframwaith yn cynrychioli arfer gorau yn hytrach na gofynion newydd, cred Llywodraeth Cymru y gall gyflawni ei hamcanion drwy ailbennu ffocws ffrydiau ariannu presennol yn dynnach ac yn unol ag arfer gorau. Er enghraifft, mae wedi ailbennu ffocws blaenoriaethau Gyrfa Cymru ac wedi tynnu sylw cynghorau a sefydliadau addysg bellach at bwysigrwydd lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel rhan o'r flaenoriaeth trechu tlodi. Mae'r ffrydiau ariannu yn gymhleth ac yn cynnwys y Grant Amddifadedd Disgyblion, dyrannu gwasanaethau ieuenctid yn y Grant Cymorth Refeniw a chyllid o lwybrau dysgu 14-19. Byddai mapio adnoddau, yn ogystal â gwasanaethau ar lefel genedlaethol a lleol, o fudd i feithrin dealltwriaeth fwy cyflawn o'r gwariant ar wasanaethau er mwyn cyflawni'r Fframwaith.

1.22 Mae Llywodraeth Cymru wedi modelu goblygiadau ariannol cyflawni un o dargedau Llywodraeth Cymru, sef lleihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET i 9 y cant erbyn 2016. O gymharu â 2011-12, amcangyfrifodd Llywodraeth Cymru y byddai cyflawni'r targed yn golygu bod 4,500 o bobl ifanc yn cael eu symud i mewn i addysg neu hyfforddiant ar gost addasedig (h.y. yn cynnwys chwyddiant) o £27.4 miliwn yn 2016/17. Mae achos busnes y Fframwaith yn nodi y byddai hyn yn fforddiadwy o fewn ei gyllideb ar y pryd oherwydd byddai'r cynnydd yn cael ei wrthbwyso gan newidiadau demograffig a wnaiff leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn.

1.23 Yng nghyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013 diogelwyd gwariant addysg bellach ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ond ar ei lefel gyfredol. Fodd bynnag, os bydd cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yn gostwng islaw'r targed o 9 y cant, mae gwaith modelu ariannol yn awgrymu na fyddai cyllid cyfredol Llywodraeth Cymru yn ddigon ar gyfer y lleoedd addysg a hyfforddiant ychwanegol a fyddai'n ofynnol. Byddai pob cynnydd ychwanegol o 1 y cant yn gofyn am tua £5 miliwn o gyllid.

1.24 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif cost cyflawni ei thargedau NEET ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed na'r rhai sy'n gadael gofal. Fodd bynnag, cydnabu y gallai ei lefel is o gyllid ar gyfer addysg bellach i oedolion ei gwneud hi'n anodd annog pobl ifanc 19-24 oed yn ôl i mewn i addysg bellach. Hefyd nid yw wedi costio'r opsiwn o ymestyn ei Gwarant Ieuenctid i bobl ifanc 17 oed, a gafodd ei grybwyll fel opsiwn posibl mewn canllawiau drafft ar weithredu'r Warant Ieuenctid ym mis Ionawr 2014.

1.25 Nid yw'r achos busnes yn cynnwys cyfeiriad at y risg bod y Fframwaith, drwy wella'r broses o nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg ac ymyrryd, yn cynyddu'r galw am wasanaethau, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a chymorth dysgu. Mae rhai o'r gwasanaethau hyn wedi'u hymestyn yn barod: er enghraifft, cydnabu adroddiadau gan GIG Cymru bwysigrwydd hanfodol nodi ac ymyrryd yn gynnar yn achos pobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl difrifol ond hefyd, yn fynych, tanlinellir y ffaith nad oes digon o ddarpariaeth o ran gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc a bod dryswch ynghylch darpariaeth briodol i bobl ifanc wrth iddynt droi'n oedolion.

## Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gydgysylltu cyllid Llywodraeth ac Ewropeaidd yn y maes hwn

1.26 Mae sawl un o adrannau Llywodraeth Cymru yn ariannu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â phobl ifanc sy'n NEET: yr Adran Addysg a Sgiliau sy'n bennaf cyfrifol am y Fframwaith; Cymunedau yn Gyntaf sy'n darparu prosiectau cyflogadwyedd mewn cymunedau difreintiedig a gwaith ymyrryd yn gynnar drwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf; a WEFO. Ym mis Gorffennaf 2013, sefydlodd Llywodraeth Cymru Fwrdd Rhaglen Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, wedi'i gadeirio gan y Cyfarwyddwr Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes (SHELL). Mae'r Bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o feysydd polisi allweddol er mwyn sicrhau cydgysylltiad ar draws isadrannau a changhennau Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r cynllun gweithredu gan gynnwys rheoli a chydgysylltu'r arian a'r adnoddau sydd ar gael.

1.27 Mae cronfeydd yr Undeb Ewropeaidd yn cefnogi ystod o brosiectau ymyrryd. Fodd bynnag, mae'r gwahanol ddiffiniadau o NEET a 'phobl ifanc sy'n wynebu risg' a ddefnyddir gan feini prawf cyllid Ewropeaidd yn ei gwneud hi'n anodd monitro effaith yr ymyriadau hyn. Mae cyfres o adolygiadau wedi nodi dyblygu posibl o fewn prosiectau oherwydd diffyg cydgysylltu cyllid Ewropeaidd a chyllid arall[13]. Fel rhan o'n gwaith gydag awdurdodau lleol, gwnaethom nodi meysydd lle yr ymddengys fod darpariaeth wedi'i phennu gan y cyllid a oedd ar gael, yn hytrach nag angen lleol, a lle nododd gynghorau fylchau mewn darpariaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai'r broses gyllido gael ei chydgysylltu'n well ac mae'n cymryd rhai camau i gyflawni gwell gwerth am arian o'r ffrydiau ariannu:

a Mae cynllun gweithredu'r Fframwaith yn cydnabod bod angen gwneud gwaith i gydgysylltu cyllid Llywodraeth Cymru a chyllid Ewropeaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu a bod buddsoddiadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop rhwng 2014 a 2020 yn gyson â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu'r risg o hynny. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu prosiect ymgysylltu â chyflogwyr fel blaenoriaeth ar gyfer cyllid Ewropeaidd yn y dyfodol erbyn mis Mawrth 2014 ar ôl nodi bod llawer o gynghorau yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â chyflogwyr lleol. Cafodd gwaith i nodi blaenoriaethau a symleiddio'r broses ddyrannu ei gwblhau ym mis Medi 2013 er mwyn cefnogi'r ail gylch o gronfeydd cyllid Ewropeaidd o fis Ebrill 2014.

b Gofyn i dendrwyr ar gyfer contractau dysgu seiliedig ar waith 2015-2018 ddangos eu bod wedi ymgysylltu â rhwydweithiau 14-19 lleol er mwyn sicrhau bod cynigion yn diwallu anghenion cyflogaeth lleol a nodwyd. Nod hyn yw lleihau'r canfyddiad nad yw dysgu seiliedig ar waith a ddatblygir gan gontractau cenedlaethol bob amser yn diwallu anghenion marchnadoedd llafur lleol.

c Defnyddio canlyniadau ymarferion mapio lleol er mwyn sicrhau bod darpariaeth a ariennir o ffrydiau ariannu eraill yn cau'r bylchau mewn anghenion lleol yn hytrach na dyblygu darpariaeth sy'n bodoli eisoes.

13 Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) Pobl Ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant. Nododd y Pwyllgor fod argaeledd cyllid Ewropeaidd wedi arwain at nifer fawr o asiantau a phrosiectau yn gweithio gyda'r grŵp cleientiaid mewn rhai meysydd, rhywfaint o ddyblygu gwasanaethau ac enghreifftiau lle nad oedd prosiectau a ariannwyd gan Ewrop yn cyfateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru (para 95-99).

Rhan 2

# Rhan 2 Os cânt eu gweithredu'n llwyddiannus, mae Fframwaith a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru yn debygol o helpu i leihau'r nifer gyffredinol o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET, ond erys risgiau sylweddol



## Gallai gweithredu'r Fframwaith wella'r broses o gydgysylltu gwasanaethau a lleihau dyblygu

2.1 Fel rhan o'n gwaith gydag wyth cyngor, mynegodd swyddogion a chynghorwyr bryderon am y graddau y gallai cynghorau gyflawni eu cyfrifoldebau strategol am arwain a chydgysylltu gwasanaethau i bobl ifanc, yn enwedig y rhai 19-24 oed. Roedd rhai cynghorau yn cydnabod y gellid gwneud mwy yn fewnol a chyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o'u cyfrifoldebau statudol tuag at bobl ifanc 16-24 oed yn gyffredinol ac, yn arbennig, y rhai sy'n gadael gofal. Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru yn ategu hyn drwy nodi'n glir y cyfrifoldeb am leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yng nghyd-destun cyfrifoldeb statudol cynghorau i gydgysylltu gwasanaethau ieuenctid fel y nodwyd yn y canllawiau *Extending Entitlement: services and support for 11-25 year olds in Wales (2002)*.

2.2 Yn y Fframwaith, mae gan gynghorau gyfrifoldeb i nodi'r gwasanaethau sydd eu hangen er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET a chydgysylltu'r broses o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Roedd y rhan fwyaf o gynghorau wedi cynnal ymarferion i nodi anghenion a lleoliad pobl ifanc sy'n NEET neu'n wynebu'r risg o hynny. Roedd rhai o'r ymarferion hyn yn dal i fod yn aneglur o ran proffil lleol pobl ifanc sy'n NEET, er enghraifft drwy fethu â gwahaniaethu rhwng pobl ifanc sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd o addysg neu gyflogaeth a'r rhai sy'n NEET yn barhaus. Ar y cyfan, fodd bynnag, daethom i'r casgliad fod gwaith cynllunio cynghorau yn seiliedig ar ddealltwriaeth leol da o anghenion a lleoliad pobl ifanc.

2.3 Mae sawl cyngor y gwnaethom ymweld â hwy eisoes wedi mapio'r ystod lawn o ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc sy'n NEET yn eu hardal. Mae'r ymarferion mapio hyn yn cynnwys nid yn unig brosiectau a ariennir gan y cyngor ond hefyd rai a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Gymdeithasol Ewrop, y Loteri Fawr ac amrywiaeth o sefydliadau elusennol. Mewn rhai ardaloedd, dangosodd hyn fod llawer o sefydliadau'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny mewn rhyw ffordd. Dylai fod gan gynghorau ddarlun llawn o gyfleoedd ysgol ac addysg bellach ôl-16, ond dywedodd rhai wrthym ei bod yn anodd cael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ystod lawn o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith a ariennir gan Lywodraeth Cymru, prentisiaethau, swyddi gwag a chyfleoedd sydd ar gael i bobl rhwng 16 a 24 oed drwy Dwf Swyddi Cymru yn ogystal â'r rhaglenni a ddarperir gan y trydydd sector, y mae rhai ohonynt yn gymharol fyr.

2.4 Rhydd yr ymarferion mapio hyn ddarlun o lefel y ddarpariaeth a'r math o ddarpariaeth sydd ar gael yn yr ardal ac maent wedi dangos peth dyblygu mewn gwasanaethau ar gyfer grwpiau penodol. I'r gwrthwyneb, mae'r ymarferion wedi tynnu sylw at fylchau mewn darpariaeth: yng Nghaerdydd, roedd swyddogion yn poeni am y nifer gyfyngedig o leoedd sydd ar gael i bobl ifanc sydd angen help gyda Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill (ESOL) ac yn Wrecsam mae'r galw am TGCh a chyrsiau ymarferol yn fwy na'r hyn sydd ar gael.

2.5 Mae'r Fframwaith yn nodi rôl 'cydgysylltydd ymgysylltu a datblygu' er mwyn rhoi arweiniad gweithredol a gweithio'n agos gyda Gyrfa Cymru a darparwyr eraill. Nodwyd bod llawer o gynghorau eisoes wedi penodi swyddog i rôl

debyg (er enghraifft, ‘cydgysylltydd NEET’ neu ei debyg) er eu bod ar lefelau gwahanol o ran statws yn ystod ein gwaith maes ym mis Gorffennaf 2013. Ar y pryd, dywedodd y cynghorau fod penodi swyddog arweiniol yn gam pwysig o ran rhoi ffocws a hwb i waith i ostwng cyfran y bobl ifanc sy’n NEET. Roedd pob cyngor yng Nghymru wedi penodi Uwch Swyddog Atebol a oedd yn gyfrifol am weithredu’r Fframwaith yn lleol erbyn mis Mawrth 2014.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau bod gwaith partneriaid allweddol yn canolbwyntio ar gefnogi’r broses o gyflawni’r Fframwaith

2.6 Mae’r Fframwaith yn nodi’n glir rolau pwysig Gyrfa Cymru a’r gwasanaeth ieuenctid wrth gyflawni’r Fframwaith. Mae’r broses o ailstrwythuro gwasanaethau gyrfaoedd yng Nghymru yn golygu bod Gyrfa Cymru mewn gwell sefyllfa i gyflawni’r rolau a ragwelwyd ar ei chyfer wrth gyflawni’r Fframwaith. Yn 2009, cyhoeddodd Estyn ddadansoddiad cymharol o berfformiad gwasanaethau gyrfaoedd a gododd bryderon ynghylch gwahanol safonau ledled Cymru[14]. Yn 2013, cafodd y chwe chwmni gyrfaoedd eu huno’n Gyrfa Cymru, sef corff unigol a sefydlwyd fel is-gwmni sy’n eiddo llawn i Lywodraeth Cymru. Mae’r newid hwn wedi egluro atebolrwydd Gyrfa Cymru, mewn achosion lle mae Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn gyfrifol.

2.7 Mae newidiadau i’r lefel o wasanaeth a gynigir gan Gyrfa Cymru wedi arwain at sicrhau bod ei hadnoddau yn canolbwyntio ar y rhai sydd bellaf o’r farchnad lafur. O fis Ebrill 2013, mae pob oedolyn a pherson ifanc yn parhau i allu cael gafael ar wasanaethau gyrfaoedd ar-lein a thros y ffôn ond caiff cyngor wyneb yn wyneb ei gynnig i’r unigolion â’r angen mwyaf, gan gynnwys y rhai 14-16 oed y nodwyd eu bod yn wynebu risg o ymddieithrio a phobl ifanc 16-24 oed sy’n ddiwaith. Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu model ‘pum haen’ ar gyfer nodi’r risg o ymddieithrio, tracio pobl ifanc yn well, mesurau cyrchfan ôl-16 ac 18 gwell a phroses gwneud cais gyffredin newydd ar gyfer opsiynau ôl-16 sy’n cael ei threialu o fis Medi 2013. Mae ysgolion wedi cymryd y cyfrifoldeb am gyngor ac arweiniad gyrfaoedd cyffredinol. Fodd bynnag, erys cwestiynau am ansawdd cyngor gyrfaoedd i’r rhan fwyaf o ddisgyblion: Daeth Estyn i’r casgliad ym mis Mai 2014 nad yw’r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cyngor cyfredol a diduedd ar gyrsiau, gyrfaoedd a llwybrau datblygu i’w disgyblion. Daeth i’r casgliad fod ysgolion, ar y cyfan, yn ei chael hi’n anodd disodli’r gwasanaeth a ddarparwyd gan Gyrfa Cymru gynt. Nid yw’r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnig cyngor gyrfaoedd un i un i bob dysgwr ar gamau pontio pwysig blwyddyn 9 a blwyddyn 11[15].

2.8 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod y potensial ar gyfer gwasanaeth ieuenctid sydd wedi’i adfywio er mwyn cyflawni rôl strategol wrth ddarparu’r Fframwaith yn lleol. Cyflwynodd Strategaeth Gwaith Ieuenctid Genedlaethol newydd ar gyfer Cymru 2014-15[16] ym mis Mawrth 2014 yn dilyn ymarfer ymgynghori rhwng mis Mehefin a mis Medi 2013[17]. Mae’r strategaeth yn tynnu sylw at bedwar canlyniad y dyfernir gwasanaethau ieuenctid yn eu herbyn:

a mae pobl ifanc yng Nghymru yn parhau i allu manteisio ar ystod amrywiol o gyfleoedd dysgu anffurfiol a rhai nad ydynt yn ffurfiol;

b atgyfnerthu’r gydberthynas strategol rhwng gwasanaethau gwaith ieuenctid ac addysg ffurfiol yn genedlaethol;

14 Estyn (2009) *Cyflwyniad Estyn i’r Adolygiad o’r Gwasanaethau Gyrfaoedd yng Nghymru* Dadansoddiad cymharol o berfformiad Gyrfa Cymru 2005–2008.
15 Estyn (2014) *Gwasanaethau cymorth dysgwyr i ddisgyblion 14-16 oed* Adolygiad thematig
16 Llywodraeth Cymru (2014) *Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cenedlaethol Cymru 2014-15*
17 Llywodraeth Cymru (2013) *Gweledigaeth ar gyfer strategaethgwaith ieuenctid genedlaethol newydd i Gymru 2013-2018* tudalen 5

c arlwy gwell a mwy cyson o waith ieuenctid i bobl ifanc o sefydliadau yn y sector statudol a'r sector gwirfoddol; a

ch chreu sail dystiolaeth gadarn sy'n nodi canlyniadau ac effaith gwaith ieuenctid.

2.9 O fewn y Strategaeth newydd, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod potensial gwaith ieuenctid wedi'i dargedu er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc mewn addysg a hyfforddiant. Mae hefyd yn cydnabod bod gwasanaethau ieuenctid, yn rhy aml, wedi'u hystyried yn ymylol. Rhydd y Fframwaith gyfle i sefydliadau gwaith ieuenctid ddod yn fwy unedig o ran gwasanaethau addysg a chymorth ac mae'n rhoi rôl glir iddynt fel gweithwyr arweiniol ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant neu'r rhai sy'n wynebu risg uchel o roi'r gorau iddi, Mae hefyd yn cydnabod gallu gweithwyr ieuenctid i gysylltu ac ymgysylltu â phobl ifanc nad ydynt mewn cysylltiad â gwasanaethau statudol (Blwch 3). Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ieuenctid yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o gyflawni'r Fframwaith bydd angen nid yn unig i gynghorau a'r ystod eang o sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau gwaith ieuenctid[18] gytuno, ond hefyd bydd angen gwneud newidiadau i ddiwylliant gwasanaethau ieuenctid. Ledled Cymru, mae ardaloedd awdurdodau lleol yn amrywio o ran y cymysgedd o gyrff statudol a gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau ieuenctid a'r lefel gyffredinol o wasanaethau sydd ar gael. Felly, bydd y strategaeth yn anochel yn cymryd peth amser i ddod yn weithredol, hyd yn oed os bydd yr holl gyrff sy'n darparu gwasanaethau ieuenctid yn derbyn yr egwyddorion sy'n sail iddi.

18 Ar lefel leol darperir gwasanaethau ieuenctid gan gymysgedd o gyrff statudol a gwirfoddol gan gynnwys sefydliadau gwaith ieuenctid cenedlaethol, sefydliadau lleol a gwasanaethau ieuenctid mewn llifrai. Mae union natur y ffordd y darperir gwasanaethau yn amrywio ar draws cynghorau fel y gwna'r lefel gyffredinol o ddarpariaeth.

Blwch 3 – Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld rôl glir ar gyfer gweithwyr ieuenctid a Chynghorwyr Gyrfa Cymru sy’n ymgysylltu â phobl ifanc anodd eu cyrraedd yng nghynllun gweithredu ei Fframwaith

Noda’r Fframwaith fodel ymgysylltu pum haen sy’n amlinellu’r lefel o gymorth sydd ar gael i bobl ifanc yn seiliedig ar eu lefel asesedig o risg o ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (ACH)

| Risg o ymddieithrio | Grŵp cleientiaid | Gweithiwr arweiniol |
|---|---|---|
| **Haen 5**<br>**Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant** | Mae pobl ifanc mewn ACH parhaus. Naill ai'n gweithio neu'n astudio am o leiaf 16 awr (gall gynnwys gwaith gwirfoddol). | Nid oes angen gweithiwr arweiniol o ystyried bod y person ifanc yn ACH ac nad yw'n wynebu risg o ymddieithrio. |
| **Haen 4**<br>**Pobl Ifanc sy’n wynebu risg o roi’r gorau i ACH** | Ystyrir bod y canlynol ‘yn wynebu risg’:<br>• pobl ifanc mewn addysg neu hyfforddiant ôl-16 lle nodwyd eu bod yn wynebu risg o naill ai ymddieithrio neu beidio â throsglwyddo’n gadarnhaol cyn 16 oed;<br>• y rhai lle tynnwyd sylw Gyrfa Cymru at y ffaith eu bod yn wynebu risg o roi’r gorau i ACH; a’r<br>• rhai sy’n gwneud llai nag 16 awr o ACH. | Yn dibynnu ar y lefel o risg o roi’r gorau iddi:<br>• risg isel a chanolig - systemau bugeiliol darparwr a/neu ddyrannu hyfforddwr dysgu fel gweithiwr arweiniol;<br>• risg uchel - efallai y dyrennir gweithiwr arweiniol o’r Gwasanaeth Ieuenctid neu Gyrfa Cymru; ac<br>• os yw Teuluoedd yn Gyntaf eisoes ynghlwm wrth hyn, bydd Tîm o Amgylch y Teulu yn penderfynu ar y gweithiwr arweiniol priodol. |
| **Haen 3**<br>**Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed y gŵyr Gyrfa Cymru amdanynt** | Pobl ifanc ddiwaith sydd naill ai’n ymgysylltu â Gyrfa Cymru a/neu y gwyddys eu bod yn chwilio am ACH. Gallant naill ai fod yn barod i ddechrau ACH neu maent wedi’u hasesu fel rhai y mae angen cymorth arnynt i reoli eu gyrfa neu i ddysgu sgiliau cyflogadwyedd er mwyn dechrau ACH. | Caiff yr holl garfan weithiwr arweiniol, o Gyrfa Cymru fel rheol. |
| **Haen 2**<br>**Pobl ifanc ddi-waith 16 a 17 oed, y gŵyr Gyrfa Cymru amdanynt, nad ydynt ar gael i ddechrau ACH** | Efallai na fydd modd i bobl ifanc ddechrau ACH oherwydd salwch, anabledd, beichiogrwydd, cyfrifoldebau gofalu neu rwystrau mawr eraill i ymgysylltu. Mae’r grŵp hwn hefyd yn cynnwys y rhai sydd yn y ddalfa. | Mae angen cymorth dwys ar y bobl ifanc hyn.<br>Caiff yr holl garfan weithiwr arweiniol, o’r Gwasanaeth Ieuenctid fel rheol. |
| **Haen 1**<br>**Statws anhysbys ar adeg gadael gwasanaethau Gyrfa Cymru** | Pobl ifanc nad yw eu lleoliad a/na'u statws yn hysbys. | Dyrennir unigolion i'r haen briodol pan y'u nodir. Gall y Gwasanaeth Ieuenctid chwarae rôl bwysig yn y gwaith o nodi pobl ifanc nad ydynt yn ACH. |

*Ffynhonnell: Addaswyd o Lywodraeth Cymru (2013) Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid*

## Mae rhai cynghorau wedi mynegi pryderon ynghylch eu gallu i weithredu'r Fframwaith o ystyried eu heriau ariannol cyfredol, y bydd angen i Lywodraeth Cymru eu monitro dros amser

2.10 Ar y cyfan, nodwyd bod cynghorau yn croesawu cyflwyno Fframwaith Llywodraeth Cymru. Bu rhai o'r cynghorau yn ein gwaith maes hefyd ynghlwm wrth baratoadau Llywodraeth Cymru ar gyfer y Fframwaith ac roeddent eisoes wedi dechrau diweddaru eu strategaethau yn sgil y Fframwaith a oedd yn dod i'r amlwg. Er enghraifft, roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi ymgorffori rôl y 'gweithiwr arweiniol' arfaethedig mewn saith swydd newydd i hyfforddwyr dysgu fel rhan allweddol o'i ddull o ymdrin â NEET. Lluniodd Cyngor Caerdydd ei Strategaeth NEET i ystyried y Fframwaith newydd. Mae Strategaeth Pontio, Ymgysylltu a Dilyniant Pobl Ifanc 11-24 oed Caerdydd yn seiliedig ar egwyddorion data clir a nodi pobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddieithrio yn gynnar. Datblygodd Cynghorau Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro Gynllun Gweithredu NEET ar y cyd mewn ymateb i'r Fframwaith ym mis Hydref 2013.

2.11 Fodd bynnag, mynegodd rhai cynghorau bryderon ynghylch eu gallu i gyflawni'r Fframwaith o ystyried yr heriau ariannol sy'n eu hwynebu. Ar ôl i'r Gweinidog gyhoeddi'r Fframwaith, datblygodd Llywodraeth Cymru achos busnes yn ategu'r dull gweithredu. Yn yr Achos Busnes nodwyd, gan fod y Fframwaith yn cynrychioli arfer gorau, y dylai fod modd i gynghorau allu darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen o gyllidebau sy'n bodoli eisoes. Dadleuodd Llywodraeth Cymru y gallai cynghorau gyflawni hyn drwy osgoi dyblygu, targedu darpariaeth yn well yn dilyn y gwaith o fapio gwasanaethau ac anghenion pobl ifanc ac 'ailbennu diben' cronfeydd sy'n bodoli eisoes fel bod gwariant yn canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n NEET a phlant a phobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf. Fodd bynnag, mae'r Achos Busnes yn cydnabod bod gallu a llai o arian yn y dyfodol yn risgiau i gyflawni'r Fframwaith yn llwyddiannus ac fe'i nodir yn y gofrestr risg (o fis Hydref 2013). Cyflwynodd y 22 o gynghorau gynllun gweithredu ar gyfer rhoi'r strategaeth ar waith erbyn diwedd mis Mawrth 2014 a bydd swyddogion yn monitro materion cyllid yn ofalus yn eu trafodaethau dilynol ag arweinwyr cynghorau.

## Nid yw'r Fframwaith yn gwahaniaethu digon rhwng pobl ifanc sy'n NEET gan beri risg bod camau gweithredu yn canolbwyntio ar y rhai sydd angen cymorth leiaf

2.12 Yn y gorffennol, mae strategaethau a chynlluniau gweithredu Llywodraeth Cymru wedi trafod, yn sylweddol weithiau, nodweddion y rhai sy'n wynebu risg uchel o ddod yn NEET. Mae Cynllun Gweithredu 2010, er enghraifft, yn gwahaniaethu rhwng: y rhai sy'n NEET am gyfnod hir (NEET 'craidd'): y rhai a all fod allan o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant am gyfnod byr ond sydd wedyn yn ailymgysylltu â dysgu neu waith; a'r rhai sy'n anweithgar oherwydd salwch neu anabledd neu gyfrifoldebau gofalu gan gynnwys dod yn rhieni yn gynnar. Yn fwy diweddar, nododd ymchwil gan Lywodraeth Cymru dri chategori penodol o bobl ifanc sy'n NEET (Blwch 4).

**Blwch 4 – Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio ymchwil i wahaniaethu rhwng pobl ifanc sy'n NEET ar sail y rhwystrau a wynebir ganddynt i ymgysylltu**

Defnyddiodd Llywodraeth Cymru (2013) dystiolaeth ymchwil i wahaniaethu pobl ifanc sy'n NEET ar sail eu hagweddau at addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a'r rhwystrau a brofir ganddynt i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Nododd yr ymchwil hon dri grŵp o fewn y boblogaeth o bobl ifanc sy'n NEET:

- **Yn agored i ddysgu, yn gylchol neu'n pontio**: pobl ifanc sy'n debygol o ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a'r gweithlu yn y byrdymor, sy'n dueddol o gyrraedd yn uwch a meddu ar agwedd fwy cadarnhaol tuag at achub ar gyfleoedd.
- **Yn anwadal, yn 'wynebu risg' neu heb benderfynu**: pobl ifanc a all fod yn anfodlon ar y cyfleoedd sydd ar gael neu sydd fwyaf agored i niwed i ddirywiad economaidd. Mae'r grŵp hwn hefyd yn cynnwys y bobl ifanc hynny sydd â diffyg cyfeiriad a/neu gymhelliant ac sy'n dueddol o symud i mewn ac allan o'r grŵp NEET.
- **Craidd neu barhaus**: pobl ifanc sy'n profi ymddieithrio tymor hwy mewn addysg, hyfforddiant a'r farchnad lafur. I'r bobl ifanc hyn, mae ymddieithrio yn aml yn gysylltiedig â phatrwm ehangach o gyrhaeddiad a phrofiad gwael.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2013) Identifying Young People at Risk of becoming 'Not in Employment, Education or Training', Ymchwil Gymdeithasol 60/2013*

2.13 Amcangyfrifodd dadansoddiad tebyg gan Ffederasiwn Cenedlaethol Ymchwil Addysgol (NFER 2009)[19] fod tua 40 y cant o'r bobl ifanc sy'n NEET yn rhai 'parhaus'. Mae 40 y cant arall yn 'agored' i ddysgu ac mae 20 y cant 'heb benderfynu'. Mae angen ymateb polisi gwahanol ar bob rhan o'r boblogaeth NEET er mwyn ei helpu i ailymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant[20].

2.14 Yng nghyd-destun Cymru, byddai'r dadansoddiad hwn yn awgrymu bod tua 4,600 o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yn barhaus ar hyn o bryd. Eto i gyd, nid yw'r Fframwaith na'r targedau cenedlaethol ar gyfer gostwng cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yn gwahaniaethu rhwng yr is-grwpiau hyn o fewn cyfanswm y boblogaeth NEET. O ganlyniad gallai fod risg bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei thargedau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET drwy ganolbwyntio gweithgareddau ar bobl ifanc yn y grwpiau 'agored i ddysgu' neu 'anwadal' heb effeithio ar y grŵp 'NEET craidd' sef yr her fwyaf. Gan y gallai llawer o bobl ifanc ailymgysylltu ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth heb fod angen ymyrraeth sylweddol, gallai hyn fod yn werth gwael am arian.

2.15 Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru a lansiwyd ym mis Ionawr 2012 yn cydnabod bod rhai pobl ifanc yn fwy tebygol o ddod yn NEET. Noda amcan i leihau gorgynrychiolaeth rhai grwpiau ethnig, y rhai sy'n gadael gofal a phobl anabl ymhlith y rhai sy'n NEET[21]. Dengys data gan Lywodraeth Cymru fod pobl ifanc sy'n anabl yn hynod debygol o fod yn NEET: mae 19.6 y cant o bobl ifanc 16-18 oed a 42 y cant o bobl ifanc 19-24 oed ag anabledd yn NEET o gymharu ag 11 y cant o bobl ifanc 16-18 oed a 19 y cant o bobl ifanc 19-24 oed heb anabledd[22]. Mae'r cynllun yn nodi amrywiaeth o weithgareddau a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru er mwyn helpu'r bobl ifanc hyn yn well i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth

19 Spielhofer, T., Benton, T., Evans, K., Featherstone, G., Golden, S., Nelson, J. a Smith P. (2009) *Increasing Participation: Understanding Young People Who Do Not Participate in Education or Training at 16 and 17* (DCSF Adroddiad Ymchwil 072). Llundain: Yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd. http://www.nfer.ac.uk/
20 Nelson, J ac O'Donnell, L. (2012) *Approaches to Supporting Young People Not in Education, Employment or Training: a Review* (NFER Research Programme: From Education to Employment). Slough: NFER.
21 Llywodraeth Cymru, 2012, *Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion 2012-2016*
22 Llywodraeth Cymru, *Bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (Blwyddyn i 31 Rhafgyr 2013) Bwletin Ystadegol 40/2014*

neu hyfforddiant. Er bod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn nodi mai'r Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid sy'n gyfrifol am lawer o'r camau gweithredu hyn, nid ailadroddir yr ymrwymiadau yn y Fframwaith ac nid yw'n eglur a fyddant yn rhan o drafodaethau â chynghorau a'u cynlluniau gweithredu. Mae asesiad effaith ar gydraddoldeb Llywodraeth Cymru ei hun o'r Fframwaith yn awgrymu y bydd ei gyflwyno yn gwella sefyllfa pobl ifanc yn gyffredinol ac y bydd angen i awdurdodau lleol ddangos sut maent wedi sicrhau darpariaeth gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchodedig yn ogystal â'r rhai sy'n gadael gofal a throseddwyr ifanc[23]. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn glir ynghylch y camau y bydd yn eu cymryd i sicrhau bod y gwaith cynllunio manwl hwn yn digwydd ac i adrodd ar gynnydd.

## Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar waith gyda dysgwyr cyn 16 oed a phobl ifanc 16-18 oed ac nid yw'n glir a fydd hyn yn ddigon i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed

2.16 Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar bobl ifanc hyd at ac yn cynnwys 18 oed. Fodd bynnag, dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer a chyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET wedi gostwng tra bod nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET wedi cynyddu o 17 y cant yn 2008 i 23 y cant yn 2012 (Ffigur 1).

2.17 Nodwyd bod gwaith cynllunio a gweithgarwch y rhan fwyaf o gynghorau hyd yn hyn wedi canolbwyntio ar bobl ifanc 16-18 oed. Cyn 16 oed, roedd y rhan fwyaf o gynghorau yn gallu dangos eu bod wedi gwneud rhywfaint o waith i nodi'r disgyblion hynny a oedd fwyaf tebygol o gymryd camau pontio gwael yn 16 oed a chynnig cymorth ac arweiniad ym mlwyddyn 11 ac weithiau ynghynt. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r cynghorau yr ymwelwyd â hwy yn ystod haf 2013 yn dechrau ystyried gwella canlyniadau pobl ifanc 19-24 oed. Er enghraifft, mae Cyngor Abertawe yn datblygu Strategaeth NEET i bobl ifanc 19-24 oed gyda phartneriaid allweddol yn Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith, sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Caiff y gwaith hwn ei lywio gan gyfres o weithdai a gynhelir gan Kafka Brigade UK er mwyn deall y prif faterion sy'n effeithio ar y garfan hon. Yn ôl yr arwyddion cynnar bydd y Strategaeth yn datblygu'r 'model pum haen' er mwyn nodi unigolion 19-24 oed sy'n wynebu risg. Mae hefyd yn debygol o gynnwys prosiect peilot i dargedu grwpiau â blaenoriaeth uchel.

2.18 Roedd cynghorau eraill yn bwriadu addasu'r gwaith a wneir ganddynt i nodi a chynorthwyo pobl ifanc sy'n wynebu risg o ymddieithrio yn 16 oed er mwyn gweithio gyda'r grŵp hŷn. Fodd bynnag, mae gennym rai pryderon am ddichonoldeb cymryd camau tebyg sy'n ddwys eu hadnoddau ar gyfer pobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET oherwydd y niferoedd uwch o bobl ifanc yn y grŵp oedran hwnnw a'r amrywiaeth gwahanol o ymyriadau sydd ar gael.

2.19 Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod o'r farn bod y camau yn y Fframwaith i gynyddu cyfraddau ymgysylltu yn debygol o leihau nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET drwy wella sgiliau a chymwysterau a pharatoi pobl ifanc ar gyfer addysg bellach ac uwch neu gyflogaeth cyn iddynt droi'n 19 oed. Mae swyddogion yn cydnabod bod gan Lywodraeth Cymru lai o ddylanwad dros nifer y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET, yn rhannol am fod amodau'r farchnad lafur yn fwy cyffredinol yn effeithio ar hyn.

23 Llywodraeth Cymru (Awst 2013) Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb: Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid

2.20 Fodd bynnag, mae ymchwil a gwaith arolygu blaenorol wedi dod i'r casgliad nad yw gwell canlyniadau yn 16-18 oed bob amser yn trosi'n llai o bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET. Er enghraifft, nododd y Comisiwn Archwilio (2010)[24] nad oedd gan gynghorau â'r nifer leiaf o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET o reidrwydd y nifer leiaf o bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET. Yn yr un modd, dengys ffigurau ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru nad oedd y rhai â'r gostyngiadau mwyaf yng nghyfran y disgyblion a oedd yn gadael ym mlwyddyn 11 (16 oed) sy'n NEET o reidrwydd yn gweld yr un gwelliant â grŵp oedran hŷn. Yn Nhorfaen, er enghraifft, gostyngodd cyfran y disgyblion a oedd yn gadael ym mlwyddyn 11 ac a oedd yn NEET o 8.2 y cant yn 2008 i 2.5 y cant yn 2013 ond cynyddodd nifer y disgyblion a oedd yn gadael ym mlwyddyn 13 (18 oed) ac a oedd yn NEET o 5 i 7.0 y cant yn ystod yr un cyfnod (Ffigurau gan Gyrfa Cymru, Ebrill 2014).

2.21 Daeth y Comisiwn Archwilio (2010) i'r casgliad nad yw problemau a heriau bod yn NEET yn cydweddu'n daclus â chyfrifoldebau asiantaethau sydd ond yn gweld pobl ifanc hyd at 18 oed. Wrth edrych ar bolisïau yn Lloegr, nododd y Comisiwn Archwilio fod dogfennau polisi yn dueddol o adlewyrchu cyfrifoldebau adrannol dros bobl ifanc sy'n newid yn 18 oed[25], gan orgyffwrdd tan 19 oed. Daeth y Comisiwn Archwilio i'r casgliad nad oedd ffocws Llywodraeth y DU ar gyflawni ei tharged NEET ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed yn 2010 yn annog darparwyr i feddwl am ragolygon gwaith rhwng 18 a 24 oed ac argymhellodd ddatblygu dull mwy cydlynol o gefnogi pobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf tan ganol eu hugeiniau.

2.22 Bydd camau mwy cydlynol yn wynebu heriau gwahanol yng Nghymru. Y Gweinidog Addysg a Sgiliau[26] sy'n bennaf cyfrifol am ymgysylltu a datblygu pobl ifanc. Fodd bynnag, cymhlethdod mawr i Gymru yw'r ffaith mai Adran Gwaith a Phensiynau Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gynnal incwm a hyfforddiant sgiliau a chyflogaeth cysylltiedig. Fel y cyfryw, rhaid i raglenni hyfforddiant sgiliau Llywodraeth Cymru weithredu'n unol â Rhaglen Waith[27] a Chontract Ieuenctid[28] Llywodraeth y DU. Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru fel Twf Swyddi Cymru neu Llwybrau at Waith yn cael eu gweithredu yn y cyfnod cyn ei bod yn ofynnol i unigolion ddilyn Rhaglen Waith yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn yn gyfyngiad pwysig ar waith gyda phobl ifanc 19 oed a throsodd ac i'r nifer fach o bobl ifanc o dan 19 oed sydd mewn cysylltiad â'r Rhaglen Waith gan gynnwys y bobl ifanc hynny a ryddheir o'r ddalfa. Mae Llywodraeth y DU wedi dilyn trywydd gwahanol fel y gall y rhai sy'n dilyn y Rhaglen Waith yn Lloegr ddilyn rhaglenni a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop[29]. Ym mis Tachwedd 2013, yn ei adroddiad ar y Rhaglen Waith yng Nghymru, argymhellodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig y dylai'r ddwy weinyddiaeth gydweithio er mwyn galluogi'r rhai sy'n dilyn y Rhaglen Waith yng Nghymru i achub ar yr holl gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael[30].

24 Y Comisiwn Archwilio, *Against the Odds – Re-engaging young people in education, employment or training*, Gorffennaf 2010
25 Yn Lloegr, mae polisi'r llywodraeth sy'n effeithio ar bobl ifanc sy'n NEET yn gyfrifoldeb ar yr Adran Addysg (gan gynnwys ysgolion, y cwricwlwm hyd at 18 oed ac addysg bellach), yr Adran Fusnes, Arloesi a Sgiliau (gan gynnwys gwella lefelau sgiliau a gostwng cyfran y bobl ifanc 18-24 oed sy'n NEET) a'r Adran Gwaith a Phensiynau (cymorth a chefnogaeth i bobl ifanc ddiwaith 18-24 oed ddychwelyd i weithio a budd-daliadau lles.
26 Y Grŵp Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes (SHELL) sy'n bennaf cyfrifol am ymgysylltu a datblygu pobl ifanc a Gyrfa Cymru. Mae'r grŵp hwn yn rhan o'r Gyfarwyddiaeth Addysg a Sgiliau ochr yn ochr â'r Grŵp Ysgolion a Phobl Ifanc sy'n gyfrifol am ysgolion a'r gwasanaeth ieuenctid. Y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg sy'n gyfrifol am y Fframwaith er mai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau sy'n bennaf cyfrifol.
27 Cymerodd Rhaglen Waith Llywodraeth y DU le sawl cynllun yn cynnwys Ardaloedd Gwaith, y Fargen Newydd, y Fargen Newydd Hyblyg a Chronfa Swyddi'r Dyfodol yn 2011. Mae'n canolbwyntio ar bobl sy'n ddiwaith am gyfnod hir neu sy'n wynebu'r risg o hynny ac mae'n eu cyfeirio at sefydliadau yn y sector preifat, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus a delir yn bennaf am ddod o hyd i waith i bobl a'u cael i aros mewn swydd.
28 Mae'r Contract Ieuenctid yn Rhaglen gan Lywodraeth y DU sy'n canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc. Cafodd ei lansio ym mis Ebrill 2012 i roi cyfleoedd i bobl ifanc 18-24 oed gan gynnwys prentisiaethau a lleoliadau gwaith gwirfoddol a hefyd i roi cymorth i fusnesau sy'n cyflogi pobl ifanc drwy'r Ganolfan Byd Gwaith neu'r Rhaglen Waith i'r rhai sydd wedi bod yn ddiwaith am chwe mis neu fwy.
29 Pennodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru Llywodraeth Cymru na fyddai'r rhai a oedd yn dilyn y Rhaglen Waith yn cael dilyn cyrsiau eraill wedi'u hariannu gan Gronfeydd Cymdeithasol Ewrop oherwydd byddai hyn yn gyfystyr ag arian dwbl o dan reolau'r UE hyd yn oed os oedd y ceisiwr gwaith yn dilyn y cwrs cyn cael ei gyfeirio i'r Rhaglen Waith. Mae Llywodraeth yr Alban wedi gwneud penderfyniad tebyg. Nid dyma'r achos yn Lloegr, lle gall cwsmeriaid ddilyn rhaglenni'r Asiantaeth Ariannu Sgiliau a ariennir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
30 Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig – Third Report (2013) The Work Programme in Wales paragraffau 53-63

Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi sefydlu gweithgor swyddogol, wedi'i gadeirio gan y Gweinidog Sgiliau, i ymchwilio i'r mater hwn ymhellach. Cyfarfu'r Pwyllgor am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2014.

2.23 Dywedodd cynghorau a'u partneriaid wrthym fod y rôl ganolog a chwaraewyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau o ran pobl ifanc 19 oed a throsodd yn ffactor pwysig a oedd yn cyfyngu ar allu cynghorau i arwain ac arloesi wrth weithio gyda phobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET, gan fod llawer llai o ffyrdd o ddylanwadu ar ddarpariaeth i'r rhai dros 19 oed. Yn achos y cynghorau hynny a oedd yn datblygu strategaethau ar gyfer pobl ifanc dros 19 oed, roedd rhai wedi recriwtio staff Canolfan Byd Gwaith lleol ar eu byrddau rheoli NEET er mwyn cydgysylltu gwaith yn well. Ar y cyfan, nododd cynghorau fod cydberthnasau gwaith lleol da â staff y Ganolfan Byd Gwaith yn lleol er iddynt sôn am rai meysydd a oedd yn peri anhawster o ran rhannu data.

2.24 Ar hyn o bryd mae pob awdurdod lleol yn datblygu protocolau rhannu data o fewn eu partneriaethau lleol. Cefnogir hyn o fewn y Fframwaith, sy'n crybwyll y cytundeb rhannu data a ddatblygwyd yng Ngheredigion fel model arfer da. Fodd bynnag, nid yw'r model hwn yn cynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau oherwydd nid yw'n cymryd rhan yn y trefniadau lleol yng Ngheredigion oherwydd pryderon data. Fodd bynnag, mewn ardaloedd eraill gwelwyd bod cynghorau a'r Adran Gwaith a Phensiynau yn treialu mesurau i'w gwneud yn bosibl i rannu data lle cafwyd caniatâd unigolion. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wrthi'n ystyried y rhwystrau cyfreithiol ac ymarferol i rannu gwybodaeth am unigolion gyda phartneriaid lleol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb wrth weithredu ledled Cymru.

## Rhan 3

Mae gan Lywodraeth Cymru weithdrefnau clir ar waith i fonitro cynnydd a dwyn cynghorau a'r rhan fwyaf o randdeiliaid cenedlaethol i gyfrif ond nid yw cynghorau wedi mabwysiadu ei thargedau er eu bod yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET



## Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r Fframwaith yn glir ac mae wedi cyflwyno dull o ddwyn cynghorau a rhai partneriaid eraill i gyfrif, er bod rhai trefniadau ar gyfer atebolrwydd lleol yn aneglur a bydd unrhyw newidiadau i'r ffordd y darperir gwasanaethau addysg yn effeithio ar drefniadau

### Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu cyfrifoldebau ar gyfer gweithredu'r Fframwaith yn glir er bod cynlluniau i ddwyn cynghorau a phartneriaid eraill i gyfrif am berfformiad yn dibynnu'n fawr ar ddatblygu mesurau cyrchfan parhaus

### Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'n glir gyfrifoldebau am weithredu ei Fframwaith i'r rhan fwyaf o'i phartneriaid

3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu'n glir rolau a chyfrifoldebau gweithredu'r Fframwaith i'r rhan fwyaf o'i phartneriaid (Blwch 5). Ystyria mai ei rôl hi yw nodi safonau a disgwyliadau clir o ran gwella, helpu awdurdodau lleol i ddatblygu a gweithredu cynlluniau a dwyn cynghorau a phartneriaid i gyfrif. Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno dulliau newydd o ddwyn cynghorau a phartneriaid i gyfrif yn well am berfformiad sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. O fis Ionawr 2014, bydd swyddogion o Is-adran Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru yn cwrdd ddwywaith y flwyddyn ag uwch arweinydd o bob Cyngor er mwyn trafod Cynllun Gweithredu NEET y Cyngor a'r cynnydd tuag at gyflawni targedau. Mae'r dull hwn o weithredu yn seiliedig ar ganfyddiadau ymchwil[31] a gwaith arolygu[32], sy'n rhoi pwyslais ar bwysigrwydd uwch arweinwyr cryf wrth wneud cynnydd i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

3.2 Yn 18 oed, mae pobl ifanc sy'n NEET yn dod yn gymwys i hawlio budd-daliadau ac mae'r cyfrifoldeb am eu cynorthwyo yn symud o Gyrfa Cymru i'r Ganolfan Byd Gwaith. Hefyd, ceir nifer fach o bobl ifanc 16-17 oed sy'n gymwys i hawlio budd-daliadau, yn bennaf ar sail caledi. Dros y blynyddoedd diwethaf, datblygwyd cydweithio rhwng cynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith a chynghorwyr Gyrfa Cymru o fewn rhai awdurdodau lleol er mwyn darparu gwasanaethau mwy di-dor i bobl ifanc ddiwaith wrth iddynt ddod yn gymwys am fudd-daliadau. Tra bod gan Gyrfa Cymru rywfaint o bresenoldeb yn holl swyddfeydd y Ganolfan Byd Gwaith, mae gan rai ardaloedd drefniadau gwaith hynod gryf. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu gweithdrefnau fel bod y cydweithio hwn yn digwydd yn fwy cyson ledled Cymru. Gallai'r Fframwaith fod o fudd drwy adlewyrchu'r gwaith hwn.

31 Arad (2011).
32 Ofsted (2010), Comisiwn Archwilio (2010).

**Blwch 5 – Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru yn nodi’n glir rolau a chyfrifoldebau prif bartneriaid heblaw am yr Adran Gwaith a Phensiynau am leihau nifer y bobl ifanc sy’n NEET**

Mae’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn nodi’n glir rolau a chyfrifoldebau partneriaid yn y gwaith o leihau nifer y bobl ifanc sy’n NEET:

- Rôl **Llywodraeth Cymru** o ran gweithredu’r fframwaith yw pennu safonau a disgwyliadau clir, er mwyn helpu awdurdodau lleol i ddatblygu eu cynlluniau a chefnogi’r broses o’u rhoi ar waith drwy eu helpu i ddysgu o arfer effeithiol ledled Cymru, tra’n dwyn awdurdodau lleol a darparwyr i gyfrif am yr hyn a gyflawnwyd.
- **Awdurdodau Lleol** fydd â’r cyfrifoldeb strategol arweiniol am weithredu’r fframwaith. Efallai y byddant am roi’r cyfrifoldeb am weithredu’r fframwaith i uwch arweinydd o fewn yr awdurdod lleol. At hynny, efallai y byddant am ddatblygu rôl Cydgysylltydd Ymgysylltu a Datblygu i roi arweiniad gweithredol a gweithio’n agos gyda Gyrfa Cymru a darparwyr.
- Gall **Gyrfa Cymru** helpu i sicrhau mwy o gysondeb wrth weithredu’r Fframwaith ledled Cymru ac mae’n chwarae rhan bwysig o ran helpu i ddatblygu trefniadau broceriaeth newydd ac wrth weithredu’r data a’r systemau tracio.
- Bydd gan y **Gwasanaeth Ieuenctid** rôl hollbwysig fel darparwr gweithwyr arweiniol i’r bobl ifanc hynny y nodwyd bod angen y cymorth mwyaf arnynt. Nodir y cyfrifoldebau arfaethedig hyn yn nogfen ymgynghori Strategaeth y Gwasanaeth Ieuenctid Cenedlaethol.
- **Ysgolion** sy’n gyfrifol am sicrhau bod y bobl ifanc gywir wedi’u nodi ac am dracio’r cynnydd a wnaed gan bobl ifanc. Byddant yn cefnogi pobl ifanc i ddefnyddio’r broses ymgeisio gyffredin ac yn sicrhau mynediad at wybodaeth, cyngor a chanllawiau priodol. Byddwn yn dwyn ysgolion i gyfrif drwy ddatblygu Mesurau Cyrchfannau ôl-16.
- Mae gan **ddarparwyr ôl-16** gyfrifoldeb i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o roi’r gorau i addysg a rhoi cymorth i’w helpu i ymddiddori yn y pwnc o hyd. Bydd angen iddynt hysbysu Gyrfa Cymru os bydd pobl ifanc yn rhoi’r gorau i addysg a hyfforddiant. Maent hefyd yn hollbwysig o ran sicrhau bod cymysgedd priodol a darpariaeth gytbwys ar waith ym mhob ardal.

*Ffynhonnell: Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru (2013)*

Mae Llywodraeth Cymru a Gyrfa Cymru yn gweithio i wella mesurau cyrchfannau parhaus. Hebddynt byddai'n anodd dwyn pob sefydliad i gyfrif am ei berfformiad

3.3 Mae adolygiadau ac adroddiadau dilynol wedi cydnabod bod y diffyg data parhaus ar gyrchfannau dysgwyr yn wendid wrth werthuso effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed:

a Gwnaeth adroddiad Pwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad Cenedlaethol (2010)[33] ar bobl ifanc sy'n NEET sawl argymhelliad ynghylch ansawdd a defnydd data er mwyn cefnogi'r gwaith o fonitro perfformiad. Er enghraifft, ei argymhelliad cyntaf oedd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i sicrhau, drwy weithio gyda Llywodraeth y DU lle bo'n briodol, fod prif ddata a data lleol yn ymwneud â phobl ifanc sy'n NEET mor gynhwysfawr, cadarn a chyfredol â phosibl.

b Argymhellodd yr *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru*[34] (2012) y dylai meini prawf perfformiad ategu system cymwysterau cenedlaethol unedig ar gyfer Cymru, gyda data yn cael eu casglu'n gyson ar draws sector chweched dosbarth ysgolion, y sector addysg bellach a'r sector dysgu seiliedig ar waith, ar sail cyfraddau cadw, cwblhau, cyrhaeddiad a dilyniant.

c Cydnabu Darparu gwasanaethau addysg yng *Nghymru yn y dyfodol* (Mehefin 2013)[35] nad yw mesurau canlyniadau ôl-16 yn gyson. Yn ystod ein hymweliadau â chynghorau, dywedodd rhai swyddogion fod defnydd Estyn o fesurau cyrchfan ôl-16 yn hanfodol fel bod ysgolion yn cynyddu eu diddordeb a'u hymrwymiad i wella cyrchfannau ôl-16 a lleihau nifer y dysgwyr nad ydynt yn trosglwyddo'n llwyddiannus yn 16 oed.

3.4 Mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld mai data perfformiad cymaradwy ar gyfer pobl ifanc 16, 17 a 18 oed yn ôl ardal awdurdod lleol fydd ei phrif ddull o ddwyn cynghorau, ysgolion a darparwyr eraill i gyfrif am berfformiad. Fodd bynnag, mae ei gallu i wneud hyn yn dibynnu'n fawr ar ddatblygu gwell mesurau cyrchfannau na'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd. Datganiad Ystadegol Cyntaf Llywodraeth Cymru (a gyhoeddir bob mis Gorffennaf) sy'n darparu'r darlun mwyaf cyflawn o nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Nid yw'r data hyn yn rhoi dadansoddiad manylach heblaw am yn ôl rhyw. Mae rhagor o wybodaeth (er enghraifft, grŵp anabledd ac ethnigrwydd) ar gael o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ond mae maint y sampl yn rhy fach i'w ddadansoddi ar lefel awdurdod lleol.

3.5 Ar hyn o bryd, yr unig ddata a gaiff eu cyhoeddi'n rheolaidd sy'n cymharu canlyniadau ar gyfer y grŵp blwyddyn gyfan yn ôl awdurdod lleol yw'r hyn a gesglir gan Gyrfa Cymru ar gyrchfannau yn 16 oed. Mae data Gyrfa Cymru ar bobl ifanc 17 a 18 oed hyd at ac yn cynnwys 2013 ond yn cynnwys y rhai sy'n mynychu chweched dosbarth ysgol. Mae Gyrfa Cymru yn gwneud gwaith i gyhoeddi'r set ddata cyrchfan gyntaf ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed.

33 Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, Argymhellion 1, 2 a 3. http://www.assemblywales.org/cy
34 Llywodraeth Cymru (2012), *Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru* (Tachwedd 2012) Argymhelliad 40
35 Llywodraeth Cymru, *Darparu gwasanaethau addysg yng Nghymru yn y dyfodol* (Mehefin 2013), tudalen 11

3.6 Bydd y ffigurau newydd hyn yn nodi cyrchfannau'r rhai sy'n gadael yr ysgol ym mis Hydref bob blwyddyn, h.y. yn fuan ar ôl gadael yr ysgol neu addysg bellach. Mae data tebyg ar gyfer Lloegr yn nodi cyrchfannau mwy parhaus drwy adrodd ar gyrchfannau parhaus rhwng mis Hydref a mis Mawrth y flwyddyn ganlynol ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11. Caiff yr ystadegau arbrofol hyn eu cyhoeddi yn nata perfformiad pob ysgol uwchradd yn Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grŵp llywio Adrannol trawsbynciol er mwyn datblygu dull strategol o fesur cyrchfannau a fydd yn cysylltu setiau data ar draws gwahanol sectorau addysg a bydd yn ystyried llunio mesurau cyrchfan sy'n nodi canlyniadau tymor hwy ar gyfer y rhai sy'n gadael yr ysgol.

3.7 Mae Gyrfa Cymru hefyd yn bwriadu sicrhau bod data ar gael yn ystod y flwyddyn o'i chronfa ddata genedlaethol ar sefyllfa pob person ifanc 16-18 oed yn erbyn ei model ymgysylltu pum haen. Gall y wybodaeth fanylach hon gael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru mewn sgyrsiau ag awdurdodau lleol ynglŷn â'u cynnydd a chan yr awdurdodau lleol eu hunain er mwyn cynllunio darpariaeth.

3.8 Ar y cyfan, mae'r data sydd ar gael yn nodi cyrchfannau ar adeg benodol yn hytrach na thracio carfan o bobl ifanc. Mae pobl ifanc yn symud cryn dipyn ar yr adeg hon yn eu bywydau. Er enghraifft, dengys ystadegau fod 4 y cant o'r rhai sy'n dechrau cwrs addysg bellach (a hyd at 9 y cant mewn rhai colegau) yn gadael o fewn wyth wythnos. Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith a cholegau addysg bellach rannu gwybodaeth am gyrchfannau fel y gall Gyrfa Cymru dracio unigolion yn well a chynnig cyngor ac arweiniad yn gyflymach os bydd unigolyn yn rhoi'r gorau iddi. Gwneir hyn drwy atgyfnerthu disgwyliadau y gwnaiff darparwyr roi'r data hyn i Gyrfa Cymru yn rheolaidd yn y llythyr blynyddol lle mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei blaenoriaethau ar gyfer y sector addysg bellach, mewn contractau ariannu dysgu seiliedig ar waith, a thrwy weithio gyda Colegau Cymru[36] er mwyn annog hysbysiadau rheolaidd am newid cyrchfannau.

3.9 Mae'r defnydd cynyddol o'r Rhif Dysgwr Unigryw (ULN) gan ysgolion ar gyfer dysgwyr o flwyddyn 9 (14 oed) hefyd yn bwysig fel bod modd tracio unigolion yn fwy effeithiol, ar yr amod bod yr unigolyn wedi rhoi ei ganiatâd i rannu ei ddata. Argymhellodd yr Adolygiad o Gymwysterau ar gyfer Pobl Ifanc 14 i 19 oed[37] (2012) y dylai fod yn ofynnol i Gyrff Dyfarnu a darparwyr dysgu ym mhob sector fabwysiadu systemau gwybodaeth reoli sy'n nodi data ULN mewn fformat y cytunwyd arno'n genedlaethol. Er nad yw Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir yng Nghymru[38] ddefnyddio'r ULN, mae cymhellion clir i wneud hynny gan fod yr ULN yn lleihau'n sylweddol y gwaith gweinyddol sydd ei angen ar gyfer arholiadau a derbyn myfyrwyr ac mae'n ofynnol gan rai cyrff dyfarnu. Ar hyn o bryd, mae gan tua 95 y cant o ddysgwyr ULN ond nid yw rhai o'r bobl ifanc sy'n wynebu'r risg fwyaf o ddod yn NEET - y rhai mewn ysgolion arbennig yng Nghymru a sefydliadau troseddwyr ifanc - yn cofrestru ar gyfer ULN, a fydd yn golygu ei bod yn anos tracio eu cynnydd.

36 Colegau Cymru / Colleges Wales yw'r sefydliad cenedlaethol sy'n cynrychioli'r 16 o golegau a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru.
37 Llywodraeth Cymru (2012) *Adolygiad o gymwysterau ar gyfer pobl ifanc 14 i 19 oed yng Nghymru: Adroddiad terfynol ac argymhellion*
38 Bydd yn ofynnol i ysgolion a gynhelir ac academïau yn Lloegr ddefnyddio ULN ar gyfer dysgwyr o flwyddyn 9 ymlaen o fis Ionawr 2014. Bydd hyn yn cynnwys dysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth amgen a bydd yn sail i'r cyfrifiad blynyddol o ysgolion. Amcangyfrifir bod cyflwyno'r ULN yn Lloegr wedi cyflawni £18 miliwn mewn arbedion effeithlonrwydd yn 2008-09. http://learningrecordsservice.org.uk

3.10 Ar hyn o bryd, nid yw Gyrfa Cymru yn ymwybodol o gyrchfannau 1.6 y cant o bobl ifanc 16 oed am nad ydynt yn ymateb neu am eu bod wedi gadael yr ardal. Mae hyn yn welliant ar 2009 lle na wnaeth 3.4 y cant ymateb i'r arolwg neu roeddent wedi gadael yr ardal ac nid oedd eu cyrchfannau'n hysbys. Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru yn herio Gyrfa Cymru a chynghorau i ddatblygu dulliau mwy effeithiol o dracio pobl ifanc nad yw eu cyrchfan yn hysbys ar hyn o bryd am ei bod yn bosibl nad yw cyfran o'r grŵp hwn yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

## Ar y cyfan roedd cynghorau yn gallu dwyn eu swyddogion i gyfrif ond roedd prosesau ar gyfer dwyn partneriaid i gyfrif yn aneglur weithiau

3.11 Nodwyd bod gan gynghorau, ar y cyfan, brosesau i ddwyn swyddogion i gyfrif ond mae'r diffyg targedau a mesurau perfformiad mewn rhai cynghorau ar gyfer cyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn lleihau eu gallu i ddefnyddio eu prosesau atebolrwydd yn effeithiol.

3.12 Yng Nghaerdydd, er enghraifft, nid yw'r Cyngor wedi pennu unrhyw darged cyffredinol i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET er mwyn gallu nodi cynnydd tuag at ei ddymuniad i fod yn ddinas lle mae pobl ifanc yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. Nodwyd bod swyddogion a phartneriaid yn ymrwymedig i gyflawni nod y Cyngor a gwelwyd bod atebolrwydd a threfniadau rheoli perfformiad yn gryfach mewn rhai adrannau nag eraill. Fodd bynnag, o fewn y Cyngor, mae Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf wedi datblygu cardiau sgorio er mwyn mesur cynnydd a defnyddir amrywiaeth o fesurau perfformiad i fonitro cynnydd hyfforddwyr dysgu, canolfannau hyfforddi a menter a thîm Gyrfa Cymru. Yn yr un modd, yn Rhondda Cynon Taf, nid yw Strategaeth Cefnogi Ymgysylltiad mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant 2012-2015, y Cynllun Integredig Sengl na'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys targedau clir.

3.13 Dywedodd cynghorau wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd herio perfformiad rhai o'u partneriaid, yn enwedig pan nad ydynt yn darparu cyllid. Ar wahân i ddiffyg targedau clir a mesurau perfformiad, nid oedd gan rai cynghorau wybodaeth am berfformiad gan ddarparwyr dysgu seiliedig ar waith lleol na rhai sefydliadau yn y trydydd sector. Mae'r Fframwaith yn cydnabod rhai o'r anawsterau hyn drwy annog swyddogion y cyngor i godi unrhyw bryderon am berfformiad darparwyr cenedlaethol yn eu cyfarfodydd â Llywodraeth Cymru ddwywaith y flwyddyn.

## Yn y dyfodol, bydd angen i'r strwythur ar gyfer dwyn cynghorau i gyfrif adlewyrchu newidiadau yn y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau addysg

3.14 Efallai y bydd angen i ddull Llywodraeth Cymru o ddwyn cynghorau i gyfrif am eu perfformiad mewn perthynas â gostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET newid er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a wneir i wasanaethau addysg yng Nghymru yn sgil sefydlu consortia rhanbarthol yn 2011 sy'n canolbwyntio ar wella ysgolion a Darparu Gwasanaethau Addysg yng Nghymru yn y Dyfodol 2013. Nod datblygu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yw egluro'r rolau y mae ysgolion, cynghorau, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn eu chwarae er mwyn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. O fewn y model hwn, disgwylir i gonsortia fod â 'throsolwg strategol' o'r hyn a gynigir i bobl ifanc 14-19 oed yn rhanbarthol.

3.15 Gydag amser, gallai'r model cenedlaethol greu strwythurau a fframwaith sy'n fodd i'r bartneriaeth hon weithredu. Fel rhan o'r model, er bod awdurdodau lleol yn parhau i fod â chyfrifoldeb statudol am ysgolion a gwella ysgolion, consortia rhanbarthol fydd yn helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i wella canlyniadau dysgwyr. Nid yw'n glir a fydd hyn yn cynnwys lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET pan adewir yr ysgol neu sy'n ennill cymwysterau isel. Gydag amser, mae'r consortia rhanbarthol yn debygol o chwarae mwy o rôl yn y gwaith o ddarparu cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol gan fod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nad yw ysgolion yn aml yn gallu cefnogi'r holl wasanaethau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer yr anghenion amrywiol hyn.

3.16 Bydd hefyd angen i Lywodraeth Cymru ystyried diwygiad posibl strwythur llywodraeth leol yn dilyn adroddiad y Comisiwn ar Ddarparu Gwasanaethau Cyhoeddus (Comisiwn Williams) ym mis Ionawr 2014. Argymhellodd leihau nifer yr awdurdodau yng Nghymru. Nid yw ffurf derfynol cynghorau na'r amserlen ar gyfer newid wedi'u pennu eto ond bydd y newid yn effeithio ar y ffordd y darperir gwasanaethau addysg ac ieuenctid ledled Cymru.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i sicrhau bod atebolrwydd ei hadrannau ei hun am weithredu'r Fframwaith yn gliriach ac i gydgysylltu gweithgareddau adrannau polisi

3.17 Yn ystod ein gwaith maes, dywedodd cynghorau wrthym nad oedd rhai o'r mentrau a oedd yn dod o du Llywodraeth Cymru yn ymddangos fel petaent yn gydgysylltiedig. Er enghraifft, ar adeg treialu'r Fframwaith, roedd cynghorau hefyd yn datblygu gwasanaethau a oedd yn anelu at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET mewn ymateb i fentrau Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd yn Gyntaf. Mae gwaith a ariennir drwy Cymunedau yn Gyntaf neu Teuluoedd yn Gyntaf yn destun trefniadau rheoli perfformiad a thargedau gwahanol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gydymffurfio â hwy.

3.18 Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Bwrdd Rhaglen Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Pobl Ifanc a wnaeth gyfarfod am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf 2013. Mae'r Bwrdd yn dwyn ynghyd gynrychiolwyr o feysydd polisi perthnasol er mwyn sicrhau'n well gydgysylltiad ar draws isadrannau a changhennau Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r cynllun gweithredu ar gyfer Ymgysylltu a Datblygu Pobl Ifanc. Ymhlith yr isadrannau a gynrychiolir mae'r Is-adran Addysg Bellach a Phrentisiaethau, yr Is-adran Cymorth Dysgwyr a'r Uned Strategaeth a Gweithlu o fewn yr Adran Addysg a Sgiliau yn ogystal â'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyflogaeth a Sgiliau. Hefyd cynrychiolir rhannau eraill o Lywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at y gwaith o gyflawni canlyniadau strategol a buddiannau'r Fframwaith fel Ystadegau, yr Iaith Gymraeg ac Entrepreneuriaeth a Chyflawni. Bydd Bwrdd y Rhaglen yn cymeradwyo pob prif gynllun, dogfen allweddol a gwyriad mawr

oddi wrth y Rhaglen a bydd yn adrodd i Fwrdd Cyflawni'r Adran Addysg a Sgiliau a gadeirir gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Sgiliau.

## Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau cenedlaethol i leihau nifer y bobl ifanc 16-18 oed a 19-24 oed a'r rhai sy'n gadael gofal sy'n NEET ond nid yw cynghorau yn eu rhannu er gwaethaf eu hymrwymiad eu hunain i'r agenda

3.19 Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu tri tharged i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET (Blwch 6). Caiff y targedau hyn eu nodi yn y cynlluniau gweithredu diweddaraf ar gyfer ei *Strategaeth Trechu Tlodi*. Ar hyn o bryd nid adroddir ar gynnydd tuag at gyflawni'r targedau hyn mewn ffordd gyson. Er enghraifft mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET ac yn ei chymharu â'r hyn a geir yn Lloegr. Mae hefyd yn nodi cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET heb wneud cymhariaeth â pherfformiad mewn rhannau eraill o'r DU. Dim ond o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth y ceir data cymaradwy ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon o ran pobl ifanc 16-18 oed a 19-24 oed ac fe'u cyhoeddir mewn cyhoeddiad ystadegau blynyddol.

**Blwch 6 – Mae Llywodraeth Cymru wedi pennu tri tharged yn ei Strategaeth Trechu Tlodi sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET**

Targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer gostwng cyfran y bobl ifanc sy'n NEET yw:

- lleihau nifer y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant i 9 y cant erbyn 2017 (12.1 y cant oedd y ffigur ar ddiwedd 2011);
- lleihau canran y bobl ifanc rhwng 19-24 oed sy'n NEET o'i gymharu â'r DU yn gyffredinol erbyn 2017; a
- chynyddu canran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth i 51 y cant erbyn 2017 (47 y cant oedd y ffigur yn 2011/12).

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru Creu Cymunedau Cryf: Symud Ymlaen â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (tudalennau 17-18)*

3.20 Yn ystod ymweliadau, nodwyd bod cynghorwyr a swyddogion yn amlwg yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.  Er i bob cyngor wneud rhyw gyfeiriad at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn ei amcanion gwella neu ddogfennau strategol eraill, nid yw'r rhan fwyaf wedi pennu unrhyw dargedau mesuradwy. Lle gwnaed hynny, nid oedd mesurau na thargedau yn adlewyrchu rhai Llywodraeth Cymru ac roeddent yn anghyson. Er enghraifft, roedd cynlluniau cynghorau yn canolbwyntio ar y canlynol:

a pobl ifanc 18 oed neu drosodd (Abertawe a Wrecsam);

b pobl ifanc 14-19 oed (Sir Gaerfyrddin a Bro Morgannwg);

c pobl ifanc 16-18 oed (Rhondda Cynon Taf a Thorfaen); a

ch phobl ifanc 16-24 oed (Caerffili, Caerdydd, Conwy a Sir y Fflint).

3.21 Bydd cyflawni'r targedau ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn heriol, yn enwedig o ystyried bod y gyfran mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant wedi cwympo yn 2011 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nodir cynnydd yn adroddiadau blynyddol y Rhaglen Lywodraethu sy'n dangos bod perfformiad yn sylweddol waeth nag yn Lloegr. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae cyfran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi cynyddu dros bum mlynedd o 44.8 y cant yn 2008 i 52.4 y cant yn 2012 tra bod y gyfran yn Lloegr wedi gostwng o 63 y cant i 58 y cant yn yr un cyfnod. Nodwyd mai dim ond lleiafrif o gynghorau a oedd wedi datblygu targedau penodol yn ymwneud â chyfran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

# Rhan 4

Rhan 4 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynlluniau digon clir i gyflawni ei hymrwymiadau i waith gwerthuso effeithiol a dysgu a rennir ac asesu gwerth am arian gwariant cyhoeddus sylweddol yn y maes hwn



## Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu buddiannau cymdeithasol lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET ond mae angen gwneud mwy o waith i fesur y buddiannau hyn

4.1 Nodwyd bod gan gynghorwyr a swyddogion llywodraeth leol ddealltwriaeth glir o'r mathau o fuddiannau cymdeithasol a allai ddeillio o leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Mewn cyfarfodydd â ni, disgrifiwyd cysylltiadau rhwng canlyniadau iechyd gwaeth, trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol pan ddaw pobl ifanc yn NEET. Fodd bynnag, prin y cafodd y buddiannau cymdeithasol hyn eu hadlewyrchu yng nghanlyniadau a thargedau'r cynghorau.

4.2 Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru hefyd yn trafod sut mae lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn debygol o leihau costau cymdeithasol diweithdra hirdymor gan gynnwys costau hirdymor ymddygiad gwrthgymdeithasol a chostau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gynllun yn nodi buddiannau posibl y Fframwaith ym mis Hydref 2013. Mae'r cynllun yn cyfeirio at fuddiannau sy'n cynnwys gwell cyrhaeddiad a mwy o incwm ond mae'n cydnabod bod hyn yn dibynnu i ryw raddau ar amodau'r farchnad lafur. Mae hefyd yn awgrymu y caiff y broses o leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET effaith gadarnhaol ar gostau sy'n gysylltiedig ag iechyd, yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol a diweithdra hirdymor.

4.3 Fodd bynnag, nid yw un o'r targedau a amlinellir yn y cynllun yn adlewyrchu'r buddiannau hyn ac nid yw'n glir os, na sut, y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu nodi'r effeithiau cymdeithasol hyn er mwyn dangos effeithiolrwydd neu aneffeithiolrwydd y Fframwaith. Yn yr un modd, nid yw'n glir sut y gwnaiff fesur unrhyw gysylltiad rhwng lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET a chynyddu lefelau incwm a lleihau tlodi.

## Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i werthuso a galluogi dysgu a rennir

4.4 O'n hymweliadau â chynghorau yng Nghymru, daethom i'r casgliad, er bod canlyniadau pobl ifanc wedi gwella, roedd diffyg proses werthuso reolaidd yn golygu nad yw cyfraniad ymyriadau unigol yn glir yn aml. Yn gyffredinol, mae'r ffaith nad oes dull cyffredin o fonitro'r nifer fawr o brosiectau a rhaglenni a gynhelir gan sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn eu hardaloedd yn golygu ei bod hi'n anodd i gynghorau asesu effeithiolrwydd a gwerth am arian y gwasanaethau a ddarperir er mwyn lleihau ymddieithrio. Roedd rhai enghreifftiau o gynghorau a oedd wedi asesu effeithiolrwydd cymharol gwasanaethau neu brosiectau penodol.Fodd bynnag, gan nad yw gwaith gwerthuso yn digwydd fel mater o drefn ar y cyfan, nid oes gan gynghorau ddarlun clir o'r 'hyn sy'n gweithio' yn eu hardal er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau ac ni allant bennu gwerth am arian ymyriadau. Dywedodd rhai cynghorau wrthym eu bod yn cynllunio camau i fynd i'r afael â'r bwlch hwn.

4.5 Yn yr un modd, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi gwerthuso rhai agweddau ar y rhaglenni a'r gwasanaethau sy'n anelu at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Er enghraifft, gan fod cyllid Ewropeaidd yn dibynnu ar gynnal rhyw fath o broses werthuso, mae cryn dipyn o wybodaeth am lif a chanlyniadau gwaith a ariennir gan gronfeydd Ewropeaidd. Mae gwaith yn mynd rhagddo o fewn Llywodraeth Cymru i ymgorffori gofynion a safonau gwerthuso yn yr ail gyfres o brosiectau a ariennir gan yr UE o 2014 er mwyn gweithredu dull gwerthuso mwy cyson a chymaradwy. Fodd bynnag, nid yw'r un gofynion yn gymwys i brosiectau sy'n cael arian o ffynonellau eraill, er ei bod fel arfer yn ofynnol i reolwyr prosiect ddarparu gwybodaeth am lif ac weithiau ganlyniadau i'r cyllidwr perthnasol.

4.6 Hefyd, adolygodd Llywodraeth Cymru'r broses o weithredu lwfans cynhaliaeth addysg yn 2008 ac mae'n bwriadu cynnal gwerthusiad llawn gan ddechrau yn 2014. Cwblhawyd gwerthusiad o Gronfa Ariannol wrth Gefn Llywodraeth Cymru yn 2013. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwaith monitro a gwerthuso hwn, nid oes asesiad cyffredinol o effeithiolrwydd gwaith i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Mae'r gwahanol ffyrdd o fesur allbynnau a/neu ganlyniadau sy'n ofynnol gan ddeiliaid grant yn golygu y byddai, ar hyn o bryd, yn anodd cymharu effeithiolrwydd cymharol yr amrywiaeth o ymyriadau a gyflawnwyd er mwyn deall yn well eu cyfraniad cymharol at wella canlyniadau i bobl ifanc.

4.7 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i werthuso'r Fframwaith er mwyn deall ei effeithiolrwydd yn lleol ac yn genedlaethol. Ar hyn o bryd, bwriedir cynnal proses werthuso dwy haen a fydd, i ddechrau, yn archwilio'r broses o weithredu'r Fframwaith, gan ganolbwyntio'n arbennig ar weithredu'r ddau gynnig newydd, y gweithiwr arweiniol unigol a'r Warant Ieuenctid. Bydd yr ail gam yn gwerthuso effeithiolrwydd y Fframwaith a gwaith awdurdodau lleol mewn perthynas â lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Mae nifer sylweddol o heriau yn wynebu unrhyw werthusiad annibynnol:

a *Cydgysylltu gwerthusiadau parhaus er mwyn sicrhau mesurau canlyniadau cyffredin fel bod modd cymharu*. Er enghraifft, mae gofyniad i werthuso pob prosiect a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ond ar hyn o bryd ni chaiff y canlyniadau eu casglu yn yr un fformat â phrosiectau a gefnogir gan gyllidwyr eraill. Mae hyn yn cyfyngu ar unrhyw gymhariaeth o effeithiolrwydd rhwng ymyriadau. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i werthuso amrywiaeth, gwerth ac effaith darpariaeth gwaith ieuenctid gan gynnwys ei chyfraniad at gyflogadwyedd erbyn 2017 ac effaith gwaith ieuenctid mewn ysgolion erbyn diwedd 2015 a bydd yn bwysig bod modd cymharu canlyniadau â gwaith gwerthuso arall.

b *Sicrhau gwaith gwerthuso ymyriadau o ansawdd uchel.* Gall gwaith gwerthuso o ansawdd da ddarparu tystiolaeth o achosion a phriodoleddau - hynny yw p'un a wnaeth polisi gyflawni ei ganlyniadau bwriadedig a'r graddau y cafwyd newid a arsylwyd oherwydd y polisi yn hytrach na ffactorau eraill. Nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2013), ledled Whitehall, nad oedd gwaith gwerthuso yn gynhwysfawr a'i fod ar y cyfan yn esgor ar dystiolaeth gwerthuso o ansawdd isel: dim ond lleiafrif o astudiaethau a allai roi tystiolaeth ddibynadwy o effeithiolrwydd polisïau[39]. Wrth edrych ar y dystiolaeth yng Nghymru, nifer fach iawn o astudiaethau sydd wedi darparu tystiolaeth ansawdd uchel o effeithiolrwydd hyd yma. Prin yw'r astudiaethau sydd wedi dilyn cynllun lled-arbrofol, er enghraifft drwy gynnwys grŵp cymharu cyfatebol er mwyn deall achosion yn well. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw waith gwerthuso yng Nghymru ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â NEET sydd wedi cyflawni unrhyw fath o waith rheoli ar hap, a fyddai'n mesur effeithiolrwydd ymyriad ac yn ystyried y llu o sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus sydd yn aml yn cydweithio â phobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny.

39 Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2013) *Evaluation in Government*

c *Caniatáu ar gyfer effaith hirdymor gwaith i leihau nifer y bobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant*. Ar hyn o bryd cesglir y rhan fwyaf o fesurau yn fuan ar ôl i'r ymyriad gael ei gwblhau. Er enghraifft, ar hyn o bryd mae cyrchfannau o addysg bellach yn seiliedig ar wybodaeth a gesglir oddi wrth yr ymatebydd ar ddiwedd y cwrs ac maent yn cynrychioli eu bwriadau ar yr adeg honno. Byddai gwella'r broses o dracio unigolion drwy addysg ac yn dilyn hynny yn gwella'r broses o fesur effaith hirdymor ymyriadau.

ch *Nodi'r buddiannau cymdeithasol ac economaidd sy'n deillio o leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET*. Ar hyn o bryd mae pobl ifanc yn cwblhau addysg neu hyfforddiant mewn cyfnod o ddiweithdra hanesyddol uchel ymhlith pobl ifanc. Felly, bydd angen i unrhyw ymgais i werthuso effaith ymyriadau hefyd nodi'r buddiannau cymdeithasol ac economaidd sy'n llifo o waith i ddarparu asesiad llawn o effaith.

d *Gwerthuso gwerth am arian ymyriadau a'r dull gweithredu cyffredinol*. Mae hyn yn gofyn am asesiad trylwyr o gostau gwasanaethau yn ogystal ag asesiad cynhwysfawr o ganlyniadau.

4.8 Mae'r Fframwaith yn dangos ymrwymiad i rannu dysgu ac arfer da drwy weithdai, sesiynau dwys, cysylltu awdurdodau a nodi arfer da. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd digon o adnoddau ar gyfer gofynion sylweddol rhannu arfer da a dysgu mewn modd effeithiol.

## Mae angen i Lywodraeth Cymru a chynghorau wneud mwy i asesu gwerth am arian y lefel sylweddol o wariant cyhoeddus ar bobl ifanc sy'n NEET

4.9 Amcangyfrifodd ymchwil, a gomisiynwyd gan y Comisiwn Archwilio yn 2010[40], fod cost gyfartalog bod yn NEET yn £56,400 mewn costau arian cyhoeddus a £104,000 mewn costau adnoddau (Blwch 7). Mae Fframwaith Llywodraeth Cymru yn gwneud peth cyfeiriad at y ffigurau hyn. Nodwyd bod llawer o gynghorau hefyd yn cyfeirio at y ffigurau mewn amrywiaeth o ddogfennau strategol. Gan gymhwyso'r ffigurau hyn i Gymru, yr awgrym yw bod cost gydol oes y niferoedd presennol o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yn £626 miliwn mewn costau arian cyhoeddus ac yn £1.21 biliwn mewn costau adnoddau[41]. Nid yw'r holl gostau hyn i'w talu gan gynghorau neu Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol gan fod cyfran sylweddol o'r gost gydol oes bosibl yn cynnwys budd-daliadau lles a threth ac yswiriant gwladol a gollwyd i'r Trysorlys. Nid yw Llywodraeth Cymru na chynghorau wedi cyfrifo cost poblogaeth NEET uchel iddynt hwy eu hunain.

40 Bob Coles, Christine Godfrey, Antonia Keung, Steven Parrott a Jonathan Bradshaw (2010) *Estimating the life-time cost of NEET: 16-18 year olds not in Education, Employment or Training Research Undertaken for the Audit Commission*

41 Mae'r ffigurau hyn yn wahanol i'r rhai a nodir yn Fframwaith Llywodraeth Cymru sy'n cronni'n anghywir gostau arian cyhoeddus a chostau adnoddau wrth gyfrifo cost y garfan bresennol o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET. Mae'r ymchwil wreiddiol yn nodi y dylai'r costau hyn gael eu hystyried ar wahân oherwydd y gorgyffwrdd posibl rhwng y cyfrifiadau.

**Blwch 7 – Mae ymchwil wedi dangos cost uchel pobl ifanc sy'n NEET am gyfnod parhaus**

Amcangyfrifodd ymchwil a gomisiynwyd gan y Comisiwn Archwilio yn 2010 gost hirdymor lefelau cynyddol o NEET gan ddefnyddio adolygiad o ffynonellau ystadegol a llenyddiaeth ar bobl ifanc sy'n NEET. Amcangyfrifodd yr ymchwil gost gydol oes gyfartalog pobl ifanc sy'n NEET:

- **Costau arian cyhoeddus** cyn oedran ymddeol yn seiliedig ar dalu budd-daliadau lles, costau i iechyd a gwasanaethau cyfiawnder troseddol a chyfraniadau treth ac yswiriant gwladol a gollwyd. Mae'r ymchwil yn amcangyfrif bod cost gydol oes gyfartalog unigolyn yn £56,000.
- **Costau adnoddau** sy'n cynrychioli'r golled i'r economi ac i unigolion a'u teuluoedd yn sgil y ffaith eu bod yn NEET a thangyflogaeth a chyflogaeth ddilynol. Y gost adnoddau gydol oes gyfartalog amcangyfrifedig yw £104,000.

Daeth yr ymchwil i'r casgliad y gallai'r grŵp cyfan o bobl ifanc sy'n NEET yn Lloegr yn 2008 gostio dros £12 biliwn mewn costau arian cyhoeddus a £22 biliwn mewn costau adnoddau. Mae'r awduron yn annog gofal wrth ddefnyddio costau cyfartalog oherwydd yr amrywiadau enfawr ym mhrofiad dilynol pobl ifanc sy'n NEET am gyfnod rhwng 16 a 24 oed. Yr astudiaeth achos a welodd y gost fwyaf i arian cyhoeddus oedd un troseddwr ifanc lle rhagamcanwyd costau o fwy na £2 filiwn dros fywyd yr unigolyn. I'r gwrthwyneb, mae'r rheini sy'n cael saib a gynlluniwyd o addysg (ee. myfyrwyr 'blwyddyn i ffwrdd'), yn peri cost gymharol fach i bwrs y wlad. Cafodd rhai o'r astudiaethau achos eu defnyddio i ddangos sut y gall prosiectau cymorth ieuenctid cymharol rad arwain at arbedion mawr yn nhermau arian cyhoeddus.

*Ffynhonnell: Y Comisiwn Archwilio, 2010 Against the odds: re-engaging young people in education, employment or training*

4.10 Yn 2010, nododd Tasglu Llywodraeth Cymru ar Ymgysylltu a Chyflogaeth Ieuenctid y swm mawr o wariant cyhoeddus yn y maes polisi hwn ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyfanswm gwariant ieuenctid er mwyn asesu gwerth am arian yn well. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau'r argymhelliad hwn. Felly, nid yw'n gwybod a yw'r £200 miliwn o wariant cyfredol blynyddol amcangyfrifedig sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET (Tablau 1 a 2) yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol, p'un a yw lefelau gwariant cyfredol yn ddigonol nac ychwaith a allai gyflawni ei chanlyniadau a ddymunir drwy wario llai. Wrth i heriau ariannol barhau, bydd angen meithrin gwell dealltwriaeth o gostau ymyriadau a'u buddiannau er mwyn gallu pennu eu heffeithiolrwydd cymharol yn well.

4.11 Yn yr un modd, nodwyd bod cyfeiriadau at gostau economaidd pobl ifanc sy'n NEET am gyfnodau parhaus mewn amrywiaeth o asesiadau, ymarferion mapio ac, weithiau, Gynlluniau Integredig Sengl cynghorau. Gwelwyd dylanwad canlyniadau economaidd poblogaeth NEET uchel ar ddatblygiad prosiectau yn cynnwys Cynllun Pasbort Cyngor Caerffili, mentrau â busnesau lleol i fynd i'r afael â'r bwlch mewn sgiliau yng Nghaerdydd a datblygu cymalau effaith gymdeithasol mewn contractau caffael yng Nghaerdydd, Rhondda Cynon Taf ac Abertawe. Fodd bynnag, y duedd oedd cyfeirio at y gost fyd-eang gyffredinol o fod yn NEET. Nid oedd y cynghorau wedi cyfrifo'r gost o fod yn NEET i'r bobl ifanc eu hunain na'u partneriaid nac wedi cyfrifo cyfanswm eu gwariant ar bobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny.

4.12 Mae rhai cynghorau wedi nodi'r gost o weinyddu rhai mentrau, yn enwedig darpariaeth i bobl ifanc 14-19 oed, ond nodwyd nad oedd unrhyw un wedi cynnal asesiad trylwyr o'r adnoddau sydd eu hangen i wella canlyniadau pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny. Ar y cyfan, nid oedd dogfennau yn cynnwys digon o fanylion am yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni blaenoriaethau strategol a methwyd ag ystyried y gost o weithredu Fframwaith Llywodraeth Cymru i'r cyngor. Er i Gyngor Sir y Fflint nodi'r adnoddau o ran amser staff a hyfforddiant sydd eu hangen i gyflawni ei uchelgeisiau, mynegwyd hyn mewn termau eithaf cyffredinol, gan ddisgrifio amser a hyfforddiant staff a gwneud peth cyfeiriad at arian. Yng Nghaerdydd, mae'r cyngor wedi nodi cost yr elfen broceriaeth o'i strategaeth Ymgysylltu, Pontio a Dilyniant Pobl Ifanc, er ei bod yn anos amcangyfrif yr adnoddau eraill sydd eu hangen gan fod hynny'n dibynnu ar anghenion pobl ifanc y nodwyd bod angen cymorth arnynt.

4.13 Mae'r diffyg dadansoddiadau ariannol yn debygol o gyfyngu ar allu'r cynghorau i gydbwyso gwasanaethau NEET â blaenoriaethau anstatudol eraill yn wyneb heriau ariannol. Gall hefyd olygu na all llywodraeth leol drafod gwaith cynllunio ariannol ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET gyda Llywodraeth Cymru o ddealltwriaeth glir o gostau a buddiannau gwasanaethau a threfniadau arfaethedig.

# Atodiadau

Atodiad 1 - Methodoleg

Atodiad 2 - Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Atodiad 3 - Crynodeb o ganfyddiadau gwaith maes mewn cynghorau

Atodiad 4 - Cymharu polisïau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn y DU



# Atodiad 1
# Methodoleg

Wrth gynnal yr ymchwiliad, casglodd tîm Swyddfa Archwilio Cymru dystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau rhwng mis Mai 2013 a mis Mawrth 2014.

## Adolygiad o lenyddiaeth

Gwnaethom adolygu nifer o adroddiadau eraill ar leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn ogystal â dogfennau a phapurau ategol Llywodraeth Cymru. Yr adroddiadau a fu'n hynod ddylanwadol oedd:

- Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2013) *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant*, Papur Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Medi 2013
- Y Comisiwn Archwilio (2010) *Against the odds: re-engaging young people in education, employment or training* http://archive.audit-commission.gov.uk/auditcommission/sitecollectiondocuments/Downloads/20100707-againsttheoddsfull.pdf
- Ofsted (2010) *Reducing the numbers of young people not in education, employment or training: what works and why* http://www.ofsted.gov.uk/resources/reducing-numbers-of-young-people-not-education-employment-or-training-what-works-and-why
- Llywodraeth Cymru (2010) *Astudiaeth ymchwil ansoddol i archwilio ymddieithriad pobl ifanc o ddysgu* Ymchwil gymdeithasol 04/2010http://wales.gov.uk/docs/caecd/research/100716-study-explore-young-peoples-disengagement-learning-cy.pdf
- Llywodraeth Cymru (2011) *A study of approaches to increase the proportion of young people in education, employment or training with a focus on potential or actual efficiency savings*, Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi, Modelau Newydd Darparu Gwasanaethau http://wales.gov.uk/topics/improvingservices/pslg/nwp/effectservices/NEET/?lang=en
- Nelson, J ac O'Donnell, L. (2012). *Approaches to Supporting Young People Not in Education, Employment or Training: a Review* (NFER Research Programme: From Education to Employment) Slough, NFER
- Arad Research (2011) *A study of approaches to increase the proportion of young people in education, employment or training with a focus on potential and actual efficiency savings* Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi: modelau newydd darparu gwasanaethau

## Ystadegau swyddogol a dadansoddiadau data eraill

Rydym wedi defnyddio nifer o ffynonellau data yn yr adolygiad:

- Darparodd Llywodraeth Cymru ystadegau ar bobl ifanc sy'n NEET sy'n sail i'w chyhoeddiad blynyddol 'Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant'. Felly, bu modd i ni ddarparu dadansoddiad manylach na'r ffigurau a gyhoeddwyd. Mae'r dadansoddiad hwn yn sail i Atodiad 2.
- Hefyd, edrychwyd ar ddata gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2012-13 er mwyn nodi gwariant ar feysydd sy'n gysylltiedig â gwaith i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Yn gyffredinol, mae'r gwariant hwn yn canolbwyntio ar bobl ifanc yn hytrach na'r rhai sy'n NEET yn benodol. Nid oeddem yn gallu nodi gwariant penodol ar bobl ifanc sy'n NEET yn y rhan fwyaf o feysydd.
- Adolygwyd dogfennau strategol Llywodraeth Cymru yn dyddio'n ôl i 2000 ynghylch lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET ynghyd â phapurau'n ymwneud â datblygu'r Fframwaith.
- Gwahoddwyd sylwadau gan amrywiaeth o sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o ymddieithrio ar Fframwaith Llywodraeth Cymru a hefyd ar eu profiad o rwystrau i weithio effeithiol.

## Ymweliadau â chynghorau

Ymwelodd aelodau'r tîm ag wyth cyngor ledled Cymru[42]:

- Caerffili
- Caerdydd
- Sir Gaerfyrddin
- Conwy
- Sir y Fflint
- Rhondda Cynon Taf
- Torfaen
- Bro Morgannwg

42 Gofynnodd Cyngor Ceredigion i ni adolygu ei waith gyda phobl ifanc sy'n NEET fel rhan o'n rhaglen asesu. Gwnaed hyn ym mis Hydref a mis Tachwedd 2013 a chyfeiriwn at rai o'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn.

Yn ystod yr ymweliadau hyn, gwnaethom siarad â chynghorwyr ac uwch swyddogion sy'n gyfrifol am bennu dull strategol y cynghorau o leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET. Gwnaethom siarad hefyd â staff arall sy'n gyfrifol am weithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc, rhai a gyflogir gan y cynghorau a darparwyr gwasanaethau eraill.

Gwnaethom hefyd siarad â phartneriaid yn yr ardaloedd lleol gan gynnwys staff Gyrfa Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau, ysgolion a cholegau addysg bellach, a darparwyr dysgu seiliedig ar waith, er mwyn cael darlun llawn o'r gwasanaethau yn yr ardal. Gwnaethom siarad â staff o rai prosiectau trydydd sector a oedd ar waith yn yr ardaloedd.

Gwnaethom hefyd ymweld â chynghorau Abertawe a Wrecsam, lle cynhaliwyd ymchwil yn 2011 a nododd ffactorau sy'n gysylltiedig â gweithredu llwyddiannus. Ystyriwyd y graddau y mae gwaith Cynghorau â phobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny wedi datblygu ers 2011.

## Cyfweliadau a gwaith arall

Mae'r tîm wedi siarad â swyddogion o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ymgysylltu â phobl ifanc a meysydd polisi eraill gan gynnwys cymorth dysgwyr, dysgu seiliedig ar waith, cyllid myfyrwyr ac adolygu cymwysterau. Cyfarfu'r tîm â swyddogion o Gyrfa Cymru.

Gwahoddwyd gwybodaeth a sylwadau gan sefydliadau trydydd sector â hanes o weithio gyda phobl ifanc ddifreintiedig ac wedi ymddieithrio yng Nghymru yn ogystal â Chomisiynydd Plant Cymru.

Mynychwyd dau o ddigwyddiadau 'Sgwrs Go Iawn' Llywodraeth Cymru gyda chyflogwyr, darparwyr dysgu a phobl ifanc.

Sefydlwyd grŵp cyfeirio ar gyfer yr astudiaeth. Llywiodd y grŵp hwn ein methodoleg, gwnaeth awgrymiadau a gwnaeth sylwadau ar ganfyddiadau. Roedd y grŵp cyfeirio yn cynnwys:

- Yr Athro Howard Williamson, Prifysgol De Cymru
- Richard Parry, cyn-Gyfarwyddwr Addysg, Dinas a Chyngor Caerdydd
- Michael Trickey, Cynghorydd Sefydliad Joseph Rowntree dros Gymru
- Katy Young, Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
- Jane Taylor a Ged Kerslake, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn

# Atodiad 2
# Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Caiff prif fesurau Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer y bobl ifanc sy'n NEET eu cofnodi'n flynyddol yn y Datganiad Ystadegol Cyntaf, *Cyfranogiad pobl ifanc mewn addysg a'r farchnad lafur*. Mae'r atodiad hwn yn tynnu sylw at brif ganfyddiadau'r adroddiad hwnnw a gwybodaeth o ffynonellau ac ymchwil arall.

Yn ogystal â'r mesur blynyddol o bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru, cyfeiriwn at ddata o ddwy brif ffynhonnell arall:

- Yr arolwg blynyddol o'r boblogaeth - rhydd yr arolwg amcangyfrifon o gyfran y bobl ifanc sy'n NEET. Caiff yr amcangyfrifon hyn eu diweddaru bob chwarter er mwyn darparu mesur mwy amserol, os yn llai cadarn yn ystadegol, o gyfran y bobl ifanc sy'n NEET na'r Datganiad Ystadegol Cyntaf blynyddol. Mae'r arolwg yn cynnwys gwybodaeth fanylach am nodweddion pobl ifanc gan gynnwys rhyw ac anabledd ond, oherwydd y niferoedd bach, caiff y ffigurau hyn eu cyhoeddi ar ffurf cyfartaleddau dros gyfnod o dair blynedd.

- Data Gyrfa Cymru ar gyrchfannau pobl ifanc - mae Gyrfa Cymru yn casglu data ar gyrchfannau pawb sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11 ym mis Hydref (hy ar ôl tri mis). Mae data ar gael ar y rhai sy'n gadael ysgolion a gynhelir, ond nid sefydliadau AB, ar gyfer Blynyddoedd 12 a 13.

## Cyfrif nifer y bobl ifanc sy'n NEET

Nid oes un diffiniad o 'NEET'. Yn gyffredinol, mae'r term yn cyfeirio at bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. At ddibenion ystadegol, mae hyfforddiant yn cwmpasu unrhyw weithgaredd hyfforddi nad yw'n weithgaredd hamdden a chyflogaeth sy'n cynnwys unrhyw waith â thâl. Fodd bynnag, mae Gyrfa Cymru a Twf Swyddi Cymru yn defnyddio diffiniadau gweithredol o NEET sy'n cynnwys unigolion sy'n mynychu addysg neu hyfforddiant am lai nag 16 awr yr wythnos.

Cafodd y term 'NEET' ei ddefnyddio gyntaf gan Lywodraeth y DU yng nghanol y 1990au mewn perthynas â phobl ifanc 16-18 oed. Ar yr adeg honno dosbarthwyd pobl ifanc 19-24 oed yn bobl ddiwaith. Fodd bynnag, bellach, defnyddir y term yn ehangach i gynnwys pobl ifanc 18-24 oed. Mewn rhai gwledydd Ewropeaidd, yn enwedig y rhai megis yr Eidal lle mae pobl ifanc yn aml yn gorffen addysg uwch ar ôl 24 oed, gall y categori NEET gynnwys pobl hyd at 29 oed.

## Tueddiadau yng nghyfran y bobl ifanc sy'n NEET

Cyrhaeddodd nifer y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET ei hanterth yn 2008 a 2009 sef 12.4 y cant o'r grŵp oedran. Fodd bynnag, dengys data arolwg mai dim ond cyfran fach o bobl ifanc (5 y cant) sy'n NEET yn 16 oed ond mae'r gyfran hon yn cynyddu'n gyflym felly, erbyn 18 oed, mae un rhan o bump o bobl ifanc yn NEET. At hynny, tra bod cyfran y bobl ifanc 16 oed sy'n NEET wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf, prin fod cyfran y bobl ifanc 17 oed sy'n NEET wedi newid ac mae cyfran y bobl ifanc 18 oed sy'n NEET wedi cynyddu (Tabl 3).

Tabl 3 – Nifer fach iawn o bobl ifanc 16 oed sy’n NEET ond mae’r gyfradd NEET yn cynyddu hyd at 21 oed ac yn parhau’n uchel

| Oedran | Canran NEET 2009 (Ch4) – 2011 (Ch4) | Canran NEET 2011 (Ch4) – 2013 (Ch4 | % newid |
|---|---|---|---|
| 16 | 6.6 | 4.7 | -29 |
| 17 | 11.8 | 11.3 | -4 |
| 18 | 18.3 | 21.0 | 14 |
| 19 | 19.2 | 18.0 | -6 |
| 20 | 21.8 | 22.5 | 3 |
| 21 | 24.2 | 22.7 | -6 |
| 22 | 25.4 | 23.3 | -8 |
| 23 | 20.6 | 22.9 | 11 |
| 24 | 20.9 | 21.5 | 3 |

*Ffynhonnell: Data o’r Arolwg Blynyddol o’r Boblogaeth, Llywodraeth Cymru, Bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (Blwyddyn i 31 Rhafgyr 2013) Bwletin Ystadegol 40/2014*

Ymhlith y bobl ifanc 16-18 oed, mae dynion yn fwy tebygol o fod yn NEET na merched: yn 2012 (dros dro) roedd 12 y cant o ddynion ifanc yn NEET o gymharu ag 8 y cant o ferched ifanc. Gwelir y gwrthwyneb yn achos pobl ifanc 19-24 oed: yn 2012 (dros dro) roedd 24 y cant o ferched yn NEET o gymharu ag 21 y cant o ddynion. Rhwng 2004 a 2012, mae cyfran y dynion a merched ifanc 16-18 oed sy'n NEET wedi gostwng. Mae'r darlun yn wahanol i bobl ifanc 19-24 oed: rhwng 2004 a 2012, gwelwyd cyfran y dynion sy'n NEET bron yn dyblu o 11.9 y cant i 21.5 y cant. Cynyddodd cyfran y merched ifanc hefyd ond llawer yn llai, o 20.5 y cant yn 2004 i 24.5 y cant yn 2012. Mae'n debygol bod newidiadau yn y farchnad lafur yn effeithio ar gyfran y merched ifanc sy'n NEET lawer yn fwy na dynion ifanc gan fod cyfran fwy o ferched nad ydynt ar gael i weithio oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu deuluol.

Mae pobl ifanc ag anableddau yn fwy tebygol o fod yn NEET na phobl ifanc eraill; yn enwedig y rhai 19-24 oed[43]. Dengys ffigurau o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer 2011-2013 fod 20 y cant o bobl ifanc 16-18 oed ag anabledd yn NEET o gymharu ag 11 y cant o bobl ifanc eraill. Ymhlith pobl ifanc 19-24 oed roedd bron hanner (46 y cant) y bobl ifanc ag anabledd yn NEET o gymharu â 19 y cant o bobl ifanc eraill.

Mae cyfran y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET yn amrywio rhwng cynghorau ledled Cymru o 1.3 y cant i 4.9 y cant (Tabl 4). Mae pob cyngor ond un wedi gweld lleihad yn nifer y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym mlwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET. Mewn rhai ardaloedd, bu'r lleihad hwn yn sylweddol: ym Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Thorfaen er enghraifft gwelwyd cyfran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yn mwy na dyblu rhwng 2009 a 2013.

43 Rhydd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ddata ar nifer y bobl ifanc sy'n NEET fesul blwyddyn oedran unigol a statws anabledd. Fodd bynnag, oherwydd maint sampl arolwg cymharol fach y grŵp oedran 16-24 oed, mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaleddau tair blynedd.

Tabl 4 – Mae cyfran y rhai sy'n gadael yr ysgol yng Nghymru ym mlwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET yn amrywio o gyngor i gyngor yng Nghymru ac mae wedi gostwng ym mhob cyngor ar wahân i un rhwng 2009 a 2013

| Cyngor | Canran y rhai sy'n gadael blwyddyn 11 y gwyddys eu bod yn NEET | | |
|---|---|---|---|
| | 2009 | 2013 | % newid |
| Torfaen | 8.2 | 2.5 | -70% |
| Merthyr Tudful | 4.6 | 1.9 | -59% |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 7.6 | 3.7 | -51% |
| Casnewydd | 9.1 | 4.9 | -46% |
| Caerdydd | 8.9 | 4.9 | -45% |
| Sir Fynwy | 5 | 2.8 | -44% |
| Gwynedd | 4.2 | 2.4 | -43% |
| Ceredigion | 2.3 | 1.3 | -43% |
| Abertawe | 6.4 | 3.9 | -39% |
| Castell-nedd Port Talbot | 7.1 | 4.4 | -38% |
| Wrecsam | 5.0 | 3.2 | -36% |
| Bro Morgannwg | 5.6 | 3.8 | -32% |
| Blaenau Gwent | 6.6 | 4.6 | -30% |
| Ynys Môn | 5.2 | 3.7 | -29% |
| Sir Benfro | 4.8 | 3.4 | -29% |
| Conwy | 4.8 | 3.6 | -25% |
| Sir Gaerfyrddin | 4.0 | 3.0 | -25% |
| Rhondda Cynon Taf | 4.9 | 4.1 | -16% |
| Caerffili | 5.0 | 4.4 | -12% |
| Sir Ddinbych | 4.4 | 4.1 | -7% |
| Sir y Fflint | 3.7 | 3.6 | -3% |
| Powys | 2.1 | 2.7 | 29% |
| **Cymru** | **5.7** | **3.7** | **-35%** |

*Ffynhonnell: Gyrfa Cymru, Arolwg o Gyrchfannau Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru*

## Achosion ymddieithrio

Darparodd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth wybodaeth fanylach am y rhesymau pam mae pobl ifanc 19-24 oed yn NEET (Tabl 5). Ystyriwyd bod bron 60 y cant o bobl ifanc 19-24 oed a 40 y cant o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yn 'anweithgar yn economaidd' yn hytrach nag yn 'ddiwaith', yn bennaf oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu neu deuluol neu salwch neu anabledd hirdymor a oedd yn eu hatal rhag ymgysylltu ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Nid yw dros hanner (56 y cant) y merched 19-24 oed sy'n NEET yn gweithio oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu deuluol[44]. Mae ymchwil arall wedi dangos bod cyfran y bobl ifanc sy'n anweithgar oherwydd salwch neu anabledd yng Nghymru ddwywaith cyfartaledd Cymru a Lloegr: mae gan bedwar awdurdod lleol (Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent a Thorfaen) y cyfraddau uchaf o anweithgarwch oherwydd salwch neu anabledd yng Nghymru a Lloegr[45].

Tabl 5 – Mae gwaith dadansoddi yn awgrymu bod 40 y cant o bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET a bron 60 y cant o bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn anweithgar yn economaidd oherwydd cyfrifoldebau gofalu, salwch neu resymau eraill

| | Pobl ifanc 16-18 oed (% pawb sy'n NEET) | Pobl ifanc 19-24 oed (% pawb sy'n NEET) |
|---|---|---|
| Di-waith | 60 | 43 |
| Economaidd anweithgar | 40 | 57 |
| Salwch neu anabledd | 8 | 16 |
| Cyfrifoldebau gofalu neu deuluol | 10 | 31 |
| Arall | 23 | 9 |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, Cyfartaledd tair blynedd 2008-2010 a nodwyd yn Llywodraeth Cymru (2012) Further Analysis of data related to Young People Not in Education, Employment or Training (NEET) Tablau 5 a 6*

## Cyrchfannau pobl ifanc ar ôl blwyddyn 11

Bu cynnydd hirdymor yng ngyfran y bobl ifanc sy'n parhau mewn addysg ar ôl 16 oed sydd wedi parhau yn y blynyddoedd diwethaf. Yn 2013, dechreuodd 86 y cant addysg amser llawn neu ran amser o gymharu â 74 y cant yn 2004. Yn 2013 dechreuodd 6.5 y cant arall ryw fath o ddysgu seiliedig ar waith. Nifer fach iawn a ddechreuodd weithio, cyfran lai nag yn 2044 (Tabl 6).

44 Llywodraeth Cymru (2012) *Further Analysis of data related to Young People Not in Education, Employment or Training (NEET)*, Erthygl Ystadegol Mawrth 2012, Tablau 5, 6, 7, ac 8.
45 Swyddfa Ystadegau Gwladol (2014) *Young people in the Labour Market 2014*

Tabl 6 – Mae mwyafrif cynyddol fawr o bobl ifanc yn parhau mewn addysg ar ôl blwyddyn 11

| | **2003<br>% y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11** | **2013<br>% y bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 11** |
|---|---|---|
| Parhau mewn addysg amser llawn[1] | 74.4 | 86.4 |
| Parhau mewn addysg rhan amser (llai nag 16 awr yr wythnos)[2] | - | 0.4 |
| Dysgu seiliedig ar waith[3] | 7.6 | 6.5 |
| Cyflogedig | 6.5 | 1.4 |
| Gwyddys nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth | 7.0 | 3.7 |
| Gwyddys eu bod wedi gadael Cymru | 1.9 | 0.8 |
| Cyrchfan ddim yn hysbys | 2.6 | 0.8 |

Nodiadau:

1 Yn cynnwys addysg mewn ysgol, coleg addysg bellach ac ysgolion annibynnol.

2 Cafodd y sawl sy'n astudio'n rhan amser (llai nag 16 awr yr wythnos) eu cynnwys fel rhai NEET yn flaenorol.

3 Yn cynnwys pob hyfforddiant seiliedig ar waith a gefnogir gan y Llywodraeth heb statws cyflogedig, Prentisiaethau Modern a hyfforddiant cyflogeion arall a gefnogir gan y Llywodraeth.

*Ffynhonnell: Gyrfa Cymru, Arolwg o Gyrchfannau Disgyblion o Ysgolion yng Nghymru 2013*

Mae pobl ifanc yn aml yn symudol iawn, gyda rhai yn newid darparwr addysg a hyfforddiant sawl gwaith, efallai am fod eu dyheadau'n newid neu eu bod yn difaru eu dewis cyntaf. Ar hyn o bryd, mae ystadegau ar gyfran y bobl ifanc sy'n NEET yn cofnodi eu cyrchfan ym mis Hydref, dri mis ar ôl diwedd addysg orfodol. Fodd bynnag, gwyddom fod cyfrannau fawr o bobl ifanc yn newid eu dewisiadau wedyn ac efallai y byddant yn rhoi'r gorau i addysg neu gwrs hyfforddi. Yn achos addysg bellach, mae Llywodraeth Cymru yn casglu ffigurau ar gyfran y gweithgareddau dysgu a dynnir yn ôl (hy, sy'n dod i ben heb eu cwblhau) mewn sefydliadau addysg bellach[46]. Yn 2012, cafodd 15.4 y cant o weithgareddau dysgu addysg bellach a gyflawnwyd gan ddysgwyr 16-19 oed y disgwyliwyd iddynt ddod i ben yn 2011/12 eu tynnu'n ôl (daeth 4.5 y cant i ben o fewn wyth wythnos i ddechrau a 10.9 y cant wedyn). Roedd cyfran y gweithgareddau dysgu a dynnwyd yn ôl yn amrywio rhwng sefydliadau o 10 y cant i 22 y cant. Mae Sefydliadau Addysg Bellach wedi gweithio i wella eu cyfraddau cadw dros amser. Mae cyngor ac arweiniad gyrfaoedd da yn chwarae rhan yn y gwaith o helpu pobl ifanc i wneud dewisiadau cychwynnol addas er mwyn helpu pobl ifanc i symud i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth yn hawdd. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhagor i wella'r amrywiad rhwng colegau a chynyddu cyfraddau cadw.

46 Nid yw'r ffigurau hyn yn cyfateb i nifer y dysgwyr gan fod unigolion yn aml yn cyflawni sawl gweithgaredd. Nid ydynt yn cynnwys dysgwyr sy'n trosglwyddo rhwng gweithgareddau. Nid oes gwybodaeth gymaradwy ar gael ar gyfer ysgolion.

# Atodiad 3
# Crynodeb o ganfyddiadau gwaith maes mewn cynghorau

Am adroddiad llawnach ar y canfyddiadau gweler y ddogfen ategol *Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) - canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru* a gyhoeddir gyda'r adroddiad hwn.

Roedd yr astudiaeth hon yn seiliedig ar amrywiaeth o waith o fewn llywodraeth leol:

- gwnaethom adolygu gwaith cynghorau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET gan ystyried p'un a ydynt mewn sefyllfa dda i alluogi pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny i gyflawni canlyniadau gwell;
- gwnaethom ystyried y data diweddaraf a dogfennau strategol allweddol[47] pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru yn ogystal â chanlyniadau ymarfer hunanasesu a gynhaliwyd gan gynghorau ar ran Llywodraeth Cymru yn ystod Gwanwyn 2013;
- gwnaethom ymweld ag wyth cyngor[48] rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2013 gan siarad â chynghorwyr, swyddogion a sefydliadau partner yn ogystal ag adolygu amrywiaeth o ddogfennau'r cynghorau, eu cynlluniau sefydliadol a'u strategaethau;
- gwnaethom waith dilynol yng Nghynghorau Abertawe a Wrecsam ar ganfyddiadau gwaith ymchwil a wnaed yn 2011 er mwyn darganfod a oedd yr arfer da a nodwyd bryd hynny wedi parhau; a
- gwnaethom hefyd adolygu *Cynllun Gweithredu Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid* (y Fframwaith) a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013.

Daethom i'r casgliad **fod cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i ostwng ymhellach gyfran y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig y rhai 16-18 oed, ond bod eu gwaith cynllunio yn amrywio ac mae cynghorau wedi gwneud llai o gynnydd o ran deall y costau neu werthuso effeithiolrwydd ymyriadau.**

## Mae cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i wella canlyniadau pobl ifanc ac yn deall y costau cymdeithasol o beidio â gwneud hynny, ond gwan yw eu dealltwriaeth o'r gost o gyflawni eu nodau

Mae cynghorau yn amlwg yn ymrwymedig i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET, yn enwedig pobl ifanc 16-18 oed. Croesawodd y cynghorau'r Fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a'i dull o weithredu yn gyffredinol.

Ar y cyfan, mae gan gynghorau ddealltwriaeth dda o effaith gymdeithasol ac economaidd pobl ifanc sy'n dod yn NEET, gan gynnwys canlyniadau iechyd is, troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Fodd bynnag, er bod y rhan fwyaf o'r cynlluniau yn nodi cost ariannol poblogaeth NEET uchel i'r gymdeithas, anaml y mae cynlluniau'n cyfeirio at y gost o gyflawni amcanion y cyngor, gan gynnwys costau cyfle, neu'n cyfrifo'r costau i'r cyngor ei hun neu ei bartneriaid.

47 Adolygwyd amrywiaeth o ddogfennau strategol gennym gan gynnwys Cynlluniau Gwella, Cynlluniau Integredig Sengl, Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a Strategaethau NEET cynghorau lle roedd dogfennau o'r fath ar gael.

48 Cynhaliwyd gwaith maes yng Nghynghorau Caerffili, Caerdydd, Bro Morgannwg, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Sir y Fflint rhwng mis Mai a mis Gorffennaf 2013. Gwnaed gwaith maes hefyd yng Nghyngor Sir Ceredigion yn ystod Hydref 2013.

## Er bod y sail dystiolaeth yn gymharol dda, mae ansawdd gwaith cynllunio strategol cyngor yn amrywio ac mae trefniadau atebolrwydd weithiau'n aneglur

Caiff gwaith cynllunio cynghorau ei gefnogi gan sail dystiolaeth dda, sy'n dal i wella, am anghenion a lleoliad pobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny a'r mathau o ddarpariaeth sydd ar gael iddynt. Fodd bynnag, nid oes gan rai cynghorau ddigon o fanylion am broffil lleol pobl ifanc sy'n NEET. Mae rhai wrthi'n datblygu prosesau i dracio cyrchfannau pobl ifanc ym mlwyddyn 11 ond mae anawsterau o ran rhannu data rhwng sefydliadau yn rhwystro rhai rhag tracio pobl ifanc yn effeithiol, yn enwedig pobl ifanc dros 19 oed. Mae cynghorau'n datblygu amrywiaeth o ddulliau gydag ysgolion i nodi disgyblion sy'n wynebu risg o ddod yn NEET ond prin yw'r cynghorau sydd wedi gwerthuso effeithiolrwydd y dulliau hyn.

Mae gan gynghorau gyfrifoldeb strategol i gydgysylltu a datblygu gwasanaethau lleol er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.  Ond nodwyd gennym fod rhai cynghorau a'u partneriaid yn ansicr ynglŷn â chyfrifoldebau'r cynghorau, yn enwedig dros bobl ifanc 19-24 oed. Mae llawer o gynghorau heb bennu targedau mesuradwy na mesurau perfformiad y gallant eu defnyddio i fonitro cynnydd. Mewn rhai cynghorau, mae'r trefniadau ar gyfer dwyn partneriaid i gyfrif yn aneglur.

Mae'r graddau y mae cynghorau yn cynnwys eu partneriaid yn eu gwaith cynllunio yn amrywio. Weithiau, roedd gallu cynghorau i ddwyn eu holl bartneriaid a darparwyr i gyfrif yn cael ei danseilio gan y nifer fawr o ddarparwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc sy'n NEET neu sy'n wynebu risg o hynny a diffyg gwybodaeth gan rai darparwyr am ganlyniadau eu gwaith. Mae'r trosiant cymharol gyflym ymhlith rhai darparwyr yn effeithio ar bartneriaethau lleol, a all gymryd cryn amser i ddatblygu'n gydberthnasau gwaith effeithiol.

Mae dibyniaeth ar grantiau a chontractau byrdymor yn aml yn arwain at ddarpariaeth nad yw o reidrwydd yn berthnasol i anghenion a nodwyd yn lleol. Mynegodd rhai cynghorau bryder nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn gynaliadwy yn wyneb toriadau mewn grantiau ac arian yr UE.

## Er bod canlyniadau pobl ifanc wedi gwella, mae'r ffaith nad oes systemau gwerthuso rheolaidd ar waith yn golygu bod cyfraniad ymyriadau unigol yn aml yn aneglur, bod cyfraniad partneriaid yn amrywio ac nad yw safbwyntiau pobl ifanc yn dylanwadu fawr ddim ar waith y cynghorau

Nid yw'r cynghorau yn defnyddio dull cyffredin o fonitro'r nifer fawr o brosiectau a rhaglenni a gynhelir gan sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn eu hardaloedd, felly mae'n anodd asesu effeithiolrwydd a gwerth am arian. Tystiolaeth gyfyngedig sydd gan y cynghorau ar effeithiolrwydd ymyriadau ar gyfer y grŵp targed yn eu hardaloedd. Ni chynhelir gwerthusiadau rheolaidd ac roedd rhai cynghorau wedi'i chael hi'n anodd cael gwybodaeth am ganlyniadau rhaglenni ac ymyriadau gan bartneriaid.

Mae'r cynghorau wedi gweithio gydag ysgolion, colegau addysg bellach, darparwyr dysgu seiliedig ar waith a phartneriaid eraill i nodi a chynorthwyo pobl ifanc sy'n wynebu risg o ddod yn NEET. Fodd bynnag, nodwyd bod y tyndra rhwng partneriaid sydd mewn cystadleuaeth am ddysgwyr weithiau yn eu rhwystro rhag cydweithio'n effeithiol.

Yn gyffredinol, dywedodd y cynghorau ei bod yn anodd ymgysylltu â chyflogwyr i ddatblygu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau a phrofiad gwaith. Fodd bynnag, roedd rhai enghreifftiau o waith cadarnhaol â busnesau lleol a lle roedd cynghorau wedi datblygu eu rhaglenni prentisiaeth eu hunain a oedd yn targedu pobl ifanc.

Mae rhai cynghorau wedi datblygu ffyrdd arloesol o ddefnyddio'r rhyngrwyd a'r cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu a chysylltu â phobl ifanc. Gwelsom enghreifftiau o gynghorau'n ymgynghori â phobl ifanc ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a hefyd lle roedd cynghorau wedi cymryd camau ychwanegol i ymgysylltu â grwpiau o bobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd. Fodd bynnag, cydnabu'r holl gynghorau y gallent wneud mwy i gynnwys barn pobl ifanc yn fwy systematig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

## Argymhellion

Mae Cynllun Gweithredu Fframwaith Llywodraeth Cymru yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynghorau fapio gwasanaethau, sefydlu trefniadau nodi'n gynnar, sefydlu darpariaeth gweithwyr allweddol a datblygu a thrafod eu cynlluniau i leihau niferoedd NEET gyda Llywodraeth Cymru. Hefyd, dylai cynghorau wneud y canlynol:

A1 Gyda phartneriaid, mapio ac adolygu gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well yr adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r Fframwaith.

A2 Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed.

A3 Canolbwyntio ar bobl ifanc sy'n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu â chyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai sy'n fwy tebygol o ailgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol.

A4 Datblygu eu hamcanion a'u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru.

A5 Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr bod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed.

A6 Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a'r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET.

# Atodiad 4
# Cymharu polisïau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn y DU

Darparodd Llywodraeth Cymru gymhariaeth o gyfraddau'r bobl ifanc sy'n NEET ar gyfer pob gwlad yn y DU yn seiliedig ar ddata o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth (Tabl 7). Dangosodd fod canran y bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET yng Nghymru yn 2013 yn uwch na chyfartaledd y DU er bod gan yr Alban gyfran uwch o bobl ifanc sy'n NEET yr oedran hwn. Mae cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET hefyd uwchlaw cyfartaledd y DU.

Tabl 7 – Dengys amcangyfrifon o gyfran y bobl ifanc sy'n NEET fod cyfran y bobl ifanc sy'n NEET yng Nghymru uwchlaw cyfartaledd y DU yn 2013

| | Pobl ifanc 16-18 oed % NEET | Pobl ifanc 19-24 oed % NEET |
|---|---|---|
| Cymru | 11.8 | 20.3 |
| Yr Alban | 12.5 | 17.5 |
| Gogledd Iwerddon | 6.1[1] | 20.5 |
| Lloegr | 9.4 | 19.0 |
| Y DU | 9.7 | 19.0 |

Noder:

1 Ystyrir bod yr ystadegau o ansawdd isel am eu bod yn seiliedig ar lai na 40 o ymatebion

*Ffynhonnell: Arolwg blynyddol o'r boblogaeth, a gyflwynwyd ym Mwletin Ystadegol Llywodraeth Cymru (2014) Bobl ifanc heb fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (Blwyddyn i 31 Rhafgyr 2013) BY 41/2014 Tabl 4.*

Mae strategaethau ledled y DU ac Iwerddon sy'n anelu at leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn cynnwys nifer o nodweddion cyffredin[49]:

- Yn cynnwys camau ymyrryd ataliol cynnar a chymorth ychwanegol tra yn yr ysgol er mwyn atal person ifanc rhag dod yn NEET.
- Gwahaniaethu rhwng y bobl ifanc hynny sy'n NEET â rhwystrau neu heb rwystrau i ymgysylltu.
- Cydnabod nad yw pobl ifanc sy'n NEET yn grŵp homogenaidd a bod ymddieithrio o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn aml yn gysyllitiedig â ffactorau risg eraill allgáu cymdeithasol. Mae angen i ymatebion polisi adlewyrchu'r amrywiaeth o ffactorau risg a brofir gan bobl ifanc sy'n wynebu risg o fod yn NEET.
- Llunio polisïau rhyngadrannol. Yn aml caiff polisïau i leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET eu cynnig ar sail ardal sy'n cynnig cyfleoedd i rannu profiadau a lledaenu arfer da.
- Datblygu cymorth sy'n canolbwyntio ar y camau pontio a wynebir gan bobl ifanc. Ar bob cam, mae pobl ifanc yn wynebu risg o fethu â symud i'r cam nesaf yn llwyddiannus (e.e. o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd neu ar ddiwedd addysg orfodol).

49 Adran Cyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon, *A Scoping Study of those Young People Not in Education, Employment or Training in Northern Ireland*, 2010.

## Cyd-destun y DU

Cedwir rhai o'r ffactorau pwysicaf sy'n sbarduno polisi o ran dylanwadu ar gyfraddau pobl ifanc mewn cyflogaeth ar gyfer Llywodraeth San Steffan gan gynnwys polisi ariannol y DU ynghyd â pholisi, budd-daliadau a diwygio lles. Mae'r meysydd hyn yn cael effaith ar bobl ifanc 18 oed a throsodd yn enwedig a chânt eu hategu ond nid eu disodli gan fentrau Llywodraeth Cymru fel Twf Swyddi Cymru[50]:

i **Rhaglen waith** – dyma bolisi Llywodraeth y DU ar gyfer trosglwyddo pobl o les i waith. Fe'i cyflwynwyd yn 2011 ac mae'n canolbwyntio ar bobl sydd wedi bod yn ddiwaith am gyfnod hir neu sy'n wynebu risg o hynny. Cyfeirir pobl at amrywiaeth o sefydliadau yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector (darparwyr) a delir ar sail canlyniadau yn bennaf. Yng Nghymru a'r Alban, nid yw pobl ar y Rhaglen Waith yn gymwys i gael hyfforddiant arall a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop er, yn Lloegr, gall y sawl sy'n dilyn y Rhaglen Waith achub ar amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a ariennir gan y Gronfa honno.

ii **Y Contract Ieuenctid** – rhaglen £1 biliwn sy'n anelu at helpu pobl ifanc 18-24 oed i ddod o hyd i waith. Mae'r Contract Ieuenctid yn cynnwys cymorth i fusnesau sy'n cyflogi rhywun 18-24 oed sydd wedi bod yn ddiwaith am o leiaf chwe mis drwy'r Ganolfan Byd Gwaith neu'r Rhaglen Waith. Caiff busnesau gymhelliant cyflog o hyd at £2,275 y cyflogai. Mae'r Contract Ieuenctid hefyd yn cynnig profiad gwaith i bobl ifanc.

Caiff twf economaidd y DU effaith sylweddol ar ddiweithdra ymhlith pobl ifanc 19-24 oed na'r rhai 16-18 oed gan mai prin yw'r bobl ifanc 16-18 oed sy'n bwriadu dechrau gweithio. Ers 2008, cynyddodd cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET o 16.9 y cant yn chwarter 3 2008 i 22 y cant erbyn diwedd 2009 ac nid yw wedi mynd o dan 20 y cant ers hynny. Dylanwad amodau economaidd cyffredinol ar gyflogaeth pobl ifanc yw'r rheswm, fwy na thebyg, pam y gwnaeth Llywodraeth Cymru bennu targed i ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy'n NEET sy'n berthynol i sefyllfa'r DU gyfan.

Mae gwledydd eraill y DU wedi cymryd camau gwahanol i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, maent yn rhannu nodweddion cyffredin gan gynnwys dulliau gweithredu trawslywodraethol; lleoedd wedi'u gwarantu mewn addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc (16-17 oed yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac 16-19 oed yn yr Alban); darparu prentisiaethau;  a chymhellion ariannol i gyflogwyr sy'n darparu lleoliadau gwaith.

## Lloegr

Yn Lloegr, rhennir y cyfrifoldeb am leihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET rhwng yr Adran Addysg, yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Fodd bynnag, mae gorgyffwrdd o ran y cyfrifoldeb dros bobl ifanc 18-19 oed rhwng Connexions (a oruchwylir gan yr Adran Addysg) a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Cafodd Gwasanaeth Gyrfaoedd Cenedlaethol ei sefydlu yn 2012 i ddarparu cyngor ac arweiniad i bobl o bob oed.

50 Dechreuodd rhaglen Twf Swyddi Cymru ym mis Ebrill 2012. Mae'n rhoi cyfle gwaith i bobl ifanc ddiwaith 16-24 oed am gyfnod o chwe mis. Caiff y rhai sy'n cymryd rhan yr isafswm cyflog cenedlaethol am 25 awr yr wythnos o leiaf. O dan delerau'r Rhaglen, caiff pobl ifanc eu cyflogi am hyd y rhaglen ac mae'n rhaid i'r swyddi a grëir fod yn ychwanegol at swyddi a fyddai fel arall wedi'u llenwi, yn hytrach na chymryd eu lle. Gall pobl ifanc achub ar gyfle Twf Swyddi Cymru yn syth ar ôl addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith neu brentisiaethau. Nid yw pobl sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Waith yn gymwys am gyfleoedd drwy Twf Swyddi Cymru.

Mae gwledydd eraill y DU wedi cymryd camau gwahanol i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, maent yn rhannu nodweddion cyffredin gan gynnwys dulliau gweithredu trawslywodraethol; lleoedd wedi'u gwarantu mewn addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc (16-17 oed yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac 16-19 oed yn yr Alban); darparu prentisiaethau; a chymhellion ariannol i gyflogwyr sy'n darparu lleoliadau gwaith.

## Yr Alban

Penododd Llywodraeth yr Alban Weinidog Cyflogaeth Ieuenctid dynodedig cyntaf y DU yn 2011 gyda'r cyfrifoldeb am fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc a chyflawni ymrwymiad y llywodraeth y caiff pawb sy'n 16-19 oed yn yr Alban gynnig lle dysgu neu hyfforddi.

Mae Prentisiaethau Modern yn elfen bwysig o ymateb Llywodraeth yr Alban i ddiweithdra ymhlith pobl ifanc. Mae Prentisiaethau Modern yn cynnig cyfleoedd hyfforddi ôl-16 sy'n benodol i ddiwydiant. Ceir hefyd nifer o raglenni hyfforddi gan gynnwys 'Get Ready for Work'; 'Training for Work' a chymhellion ariannol i gyflogwyr gynnig cyfleoedd hyfforddi hyblyg. Rhydd Community Jobs Scotland brofiad gwaith yn y trydydd sector i bobl ifanc ddiwaith 16-19 oed nad ydynt yn cael cymorth amgen gan y llywodraeth.

## Gogledd Iwerddon

Lansiodd Gweithdrediaeth Gogledd Iwerddon ei Strategaeth NEET sef 'Pathways to Success' yn 2012. Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar gamau ataliol i bobl ifanc dan 16 oed gan ddechrau gyda chymorth blynyddoedd cynnar; addysg neu hyfforddiant i bobl ifanc 16-18 oed sy'n NEET; a chyfleoedd i bobl ifanc ddiwaith 18-24 oed.

Mae'r cymorth sydd ar gael i bobl ifanc 16-18 oed yn cynnwys 'Training for Success' sy'n cynnig lle hyfforddi wedi'i warantu i bob person ifanc 16-17 oed sy'n NEET; rhaglenni prentisiaeth; lwfans hyfforddi; cymwysterau sgiliau hanfodol am ddim ac amrywiaeth o raglenni cymunedol a sector gwirfoddol. Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc 18-24 oed yn cynnwys y 'Graduation Acceleration Programme' er mwyn cynorthwyo graddedigion diwaith; cymhellion ariannol i gyflogwyr ac amserlen strwythuredig o gymorth NEET gan ddechrau o wythnosau cyntaf hawlio budd-dal. Mae Strategaeth NEET yn disgrifio amrywiaeth o fesurau eraill i gefnogi mentrau NEET gan gynnwys darpariaeth gofal plant; creu cyfleoedd gwaith drwy gymalau cymdeithasol ym maes caffael cyhoeddus; a Chronfa Arloesi er mwyn profi dulliau gweithredu newydd.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk